# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Hydref 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru

(09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllid: Ystadegau Alldro Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2022-23 - 3 Hydref 2024**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) - 3 Hydref 2024**

(Tudalennau 3 - 5)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Undeb PCS: Cyllideb Ddrafft 2025-26 Comisiwn y Senedd - 7 Hydref 2024**

(Tudalennau 6 - 7)

## 3 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth

(09.30-11.00) (Tudalennau 8 - 66)

Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwella

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-20-24 P1 - Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad

Briff Ymchwil y Senedd

## Egwyl

(11.00-11.15)

## 4 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth

(11.15-12.15) (Tudalennau 67 - 93)

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru

Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Cyllideb Atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25

Briff Ymchwil y Senedd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(12.15)

## 6 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod y dystiolaeth

(12.15-12.25)

## 7 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth

(12.25-12.35)

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths MS
Chair, Finance Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

3 Hydref 2024

Annwyl Peredur

**YSTADEGAU ALLDRO CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU 2022-23**

Cyhoeddodd Cyllid a Thollau EF ystadegau alldro blynyddol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2022-23 ar 11 Gorffennaf 2024. Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod effaith yr alldro hwn ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy gysoni, bellach wedi cael ei chytuno ar y cyd â Thrysorlys EF. Nodir hyn mewn nodyn technegol ar y cyd a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2024.

Mae'r ystadegau alldro yn dangos bod cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn 2022-23 wedi cynhyrchu £2,618 miliwn, i fyny £254 miliwn neu 10.8% ers 2021-22. Cynyddodd Refeniw Treth Incwm cyfatebol o 10 ceiniog yn y bunt ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn 2022-23 gan arwain at Addasiad i'r Grant Bloc (BGA) o £2,535m. Mae hyn yn golygu bod effaith gyllidebol net CTIC yn +£83m yn 2022-23.

Roedd alldro CTIC £140 miliwn (6%) yn uwch na'r hyn a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn yr Hydref 2021 ac fe'i defnyddiwyd yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Roedd yr alldro ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn uwch na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y BGA cysylltiedig yng Nghyllideb 2022-23. O ganlyniad roedd y BGA £87 miliwn yn uwch.

Y gwahaniaeth rhwng y refeniw treth incwm a'r addasiadau i'r grant bloc a ddefnyddir yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a'r alldro terfynol yw +£53 miliwn. Caiff hyn yn cael ei gymhwyso i gyllideb 2025-26 fel swm cysoni.

Wrth gynhyrchu ystadegau 2022-23, darganfu CThEF nifer o unigolion a gafodd eu cofnodi mewn dwy ffynhonnell ddata wahanol ac a gafodd eu cyfrif ddwywaith o ganlyniad i hynny. Nid oedd y mater hwn wedi'i gyfyngu i drethdalwyr Cymru. Nid oedd unrhyw drethdalwyr yn gorfod talu'r swm anghywir o dreth incwm o ganlyniad. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys yng nghyhoeddiad alldro CThEM trwy ddiwygiadau i 2019-20 i 2021-22.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r driniaeth o'r diwygiadau hyn bellach wedi ei chytuno gyda Llywodraeth y DU. Maent yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r cysoniad alldro mewn perthynas â 2022-23 a'r blynyddoedd i ddod, ond caiff yr effaith ar flynyddoedd sydd wedi'u cysoni yn flaenorol ei hanwybyddu. (Byddai effaith y diwygiadau ar y blynyddoedd a gafodd eu cysoni yn flaenorol wedi bod yn -£0.4m i gyd).

Mae'r ystadegau alldro ar gael yma:

Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru a'r Alban - GOV.UK (www.gov.uk)

Gellir gweld y nodyn technegol ar y cyd yma:
Cysoni cyfraddau treth incwm Cymru 2022 i 2023: Nodyn technegol ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi | LLYW.CYMRU

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/PO/0271/24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

SeneddCyllid@senedd.cymru

3 Hydref 2024

Annwyl Peredur,

Wrth i ni nesáu at ddiwedd cam un, rydym wedi bod yn adolygu dogfennaeth y Bil, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a'r ohebiaeth i bwyllgorau.

Yn anffodus, rydym wedi nodi gwall ffeithiol yn C1(a) yn ein hymateb ar 26 Gorffennaf, i'ch llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf.

Ymddiheuraf am hyn ac am unrhyw ddryswch y gallai hyn fod wedi'i achosi i'r pwyllgor. Gweler isod yr ymateb cywir, diwygiedig. Rydym hefyd wedi ehangu ar yr wybodaeth ar ffurf tabl, a fydd, gobeithio, yn sicrhau bod y sail y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r ystodau a nodwyd mor glir ag y gall fod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

***C1 (a) Mae swm yr elfennau cyfansoddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod cyfanswm cost y Bil yn amrywio o £394.5m i £495.7m. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i gyfanswm y gost a nodir yn y crynodeb o'r Asesiad hwnnw, sef £429.8m i £455.7m. Rydym hefyd wedi canfod anghysondebau eraill rhwng gwerth y costau a'r manteision yn y crynodeb o'r Asesiad a'r tablau sydd wedi'u cynnwys yng ngweddill yr Asesiad. A fyddech cystal â rhoi eglurhad o'r ffigurau cywir neu esboniad am y gwahaniaethau hyn.***

Rydym wedi adolygu tablau crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac rydym yn fodlon bod yr ystodau o £429.8M i £455.7M a gyflwynwyd yno yn gywir.

Nid yw'r ystod o £394.5M i £495.7M yn ymddangos yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond ymddengys ei fod wedi cael ei gyfrifo drwy adio'r gwerthoedd isaf o'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ystodau ‘Costau gweinyddol’, ‘Costau cydymffurfio’ a ‘Chostau eraill’ a’r gwerthoedd uchaf o’r un ystodau hynny yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Fodd bynnag, er mwyn cyfrifo’r costau isaf neu uchaf ar gyfer adran dileu elw preifat yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae angen ystyried amcangyfrif costau gwahanol senarios gyda’i gilydd, yn hytrach nag adio’r holl ffigurau isaf o’r ystodau gyda’i gilydd, neu’r holl ffigurau uchaf o’r ystodau.

Mae’r ystodau ar gyfer y costau a’r arbedion cost o dan yr adran dileu elw preifat wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwahanol dybiaethau (senarios) ar gyfer cyfran y darparwyr sector preifat presennol a fydd yn dewis aros yn y farchnad. Cyflwynir y rhain fel senarios A, B ac C yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae gwybodaeth am y farchnad a thrafodaethau â rhanddeiliaid wedi ein harwain i gredu mai canlyniad rywle rhwng Senarios B ac C sydd fwyaf tebygol ac felly mae’r ffigurau yn nhablau’r crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar yr ystod o gostau ac arbedion cost a gyfrifwyd o dan y ddwy senario hyn.

Gan gymharu Senarios B ac C, mae costau darparwyr preifat (sy’n cael eu dangos yn yr adran ‘Costau eraill’ yn nhabl y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol) ar eu huchaf o dan senario B ac ar eu hisaf o dan senario C. Y gwrthwyneb sy’n wir ar gyfer costau gweinyddol y sector cyhoeddus, lle mae’r costau’n is yn Senario B a chaiff pen uchaf yr ystod ei gyfrifo o dan senario C.

Felly, mae ychwanegu pen uchaf ystod costau’r sector preifat a phen uchaf ystod costau’r sector cyhoeddus yn arwain at gyfanswm anghywir, oherwydd eu bod yn deillio o wahanol senarios a gwahanol setiau o dybiaethau modelu. Caiff hyn ei nodi ym Mhennod 7 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond rydym yn cydnabod y gallai fod wedi cael ei egluro’n fanylach yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 6. Byddem yn rhagweld cyflwyno Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl cwblhau Cam 2, a gallwn gynnwys rhywfaint o naratif ychwanegol yn nhabl crynodeb Asesiad Effaith Rheoleiddiol Pennod 6 i egluro’r pwynt hwn.

Mae £2.3M o arbedion costau gweinyddol hefyd wedi’u nodi yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cyfanswm y gost fel y’i rhoddir yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyflawni ar sail y costau gweinyddol net, h.y. y costau gweinyddol llai’r arbedion ar gostau gweinyddol.

Gan gymryd y ddau bwynt hyn gyda’i gilydd, a chan gofio bod y gwerthoedd unigol yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn agored i gael eu talgrynnu, gobeithiwn fod hyn yn egluro’r sail ar gyfer cyfrifo ystod cyffredinol y costau a amcangyfrifir yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Er mwyn nodi mor glir â phosibl sut mae ystod cyffredinol costau'r Bil a amcangyfrifir, fel y darperir yng nghrynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ymwneud â'r ffigurau a roddwyd yn naratif crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi darparu tabl ychwanegol isod:

| | Costau (o dan y senario sy'n arwain at y lleiafswm cyffredinol) mewn £M, i'r £0.1M agosaf | Costau (o dan y senario sy'n arwain at y lleiafswm cyffredinol) mewn £M, i'r £0.1M agosaf |
|---|---|---|
| Costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru | 4.5 | 4.5 |
| Costau gweinyddol i awdurdodau lleol | 185.7 | 245.5 |
| Costau gweinyddol i fyrddau iechyd | 20.5 | 24.2 |
| Costau gweinyddol i AGC | 5.9 | 5.9 |
| Costau gweinyddol - arbedion | -2.3 | -2.3 |
| **Costau gweinyddol net** | **214.3** | **277.8** |
| **Costau cydymffurfio** | **0.1** | **0.2** |
| **Costau eraill** (ar gyfer darparwyr preifat) | **215.3** | **177.7** |
| | | |
| **Cyfanswm costau** | **429.8***| **455.7** |

** Nid yw'r ffigur cost a amcangyfrifir yn cyfateb i'r costau cydrannol yn union yn y golofn hon, oherwydd talgrynnu*

Fe wnaethoch hefyd fynegi pryderon am anghysondebau rhwng gwerthoedd yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yng nghorff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 7. Cafodd rhai o’r anghysondebau ymddangosiadol rydych chi’n poeni amdanynt eu hegluro yn y llythyr blaenorol, ond rydym wedi nodi gwall yn Nhabl 7.13 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy’n amcangyfrif gwerthoedd ar gyfer elw a gollir gan y sector preifat mewn perthynas â’r cynigion ar ddileu elw preifat wrth ofalu am blant sy’n derbyn gofal. Mae’r gwerthoedd sydd wedi’u cynnwys ar gyfer Senarios B ac C ar gyfer blwyddyn ariannol 2034-5 yn anghywir – dylai’r rhain fod yn -£32,809,000 ar gyfer y ddwy senario.

Nid yw’r gwall hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfansymiau a roddir yn y crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy’n gywir. Rhoddir y ffigyrau cywir hefyd yn adroddiad ADSS Cymru, a gyhoeddwyd ar wahân.

Byddwn yn diweddaru ac yn cywiro’r Memorandwm Esboniadol pan ddaw’r cyfle nesaf, ar ôl cwblhau trafodion Cam 2.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Eitem 2.3

PCS Cymru/Wales

1 Cathedral Road

Cardiff

CF11 9HA

7TH October 2024

Peredur Owen Griffiths MS

Chair, Finance Committee

Senedd Cymru

By email

Dear Peredur

**Senedd Commission draft budget 2025-26**

I am writing to provide PCS Union's views on the Senedd Commission's ('the Commission') draft budget for 2025-26, following its laying on 27 September and the Finance Committee's meeting on 3 October. We appreciate that scrutiny occurs within tight timescales, but we hope you can give the contents of this letter some consideration.

As set out in our letter dated 11 October 2023 during last year's scrutiny, PCS is committed to advocating for a sustainable funding settlement for this institution. Robust funding for the Commission is essential as Senedd Reform ('Reform') nears. The 2025-26 financial year is a crucial one in the history of the institution as it prepares for its most challenging transition – the transition to the 7th Senedd.

We note the 16.77% headline increase of the total budget, and the increase in the operational budget of 11.08%. In the context of preparing for a 60% increase in the number of Members of the Senedd ('Members'), there can be no reasonable argument against significant budgetary increases for the Commission. Core operations, outside of the ring-fenced programme budgets, must also be strengthened in advance of the 2026 election so that Reform, as legislated for by Welsh Government and passed by an enhanced majority of Members, can be properly delivered. Hefin David MS, representing the Commission during the 3 October Finance Committee meeting, said

*'we've been tasked by...a two-thirds majority of the Parliament...to engage in Senedd reform, and that was carried through a democratic vote of the Parliament. It's now up to the Parliament*

*to decide whether…this should be funded in the way that we propose. My argument today is that there isn't really any other way of doing it.'*[1]

We support the Commissioner's position, and we believe that it is Members' collective responsibility to recognise the demands that their decisions place on the institution that supports them and support the budget accordingly.

PCS also welcomes the jettisoning of the GDP Deflator as an index for operational budget growth, a metric we criticised in our letter last year. We agree with the assessment in the draft budget that it 'is not a realistic target due to the level of funding gap that would be created' (p12). We expect the Commission to ask for the funds it needs to maintain and enhance the services it provides to Members in the coming transformational years. Selling itself short is detrimental to its staff, its stability and the Senedd's effectiveness as a parliament for Wales.

The PCS Senedd Commission Branch, by far the largest union branch at the Commission, also welcomes the inclusion of a 5% pay award to staff for 2025-26 and will not oppose its implementation. PCS has been in dispute with the Commission since the autumn of 2022 and has successfully achieved a mandate each time it has balloted its members. Its third successive strike mandate is still active. Although the award is not likely to be sufficient to end the dispute formally, it is a step in the right direction and should to some degree lessen the significant real terms pay cut suffered by staff in recent years. If this budget is passed by the Senedd, the Branch will look to engage with the Commission on future years, to see whether an agreement can be found to limit uncertainty for staff and the institution.

We would also like to welcome the 6% pay uplift for support staff, which include members of the PCS Plaid Cymru Branch, that is in the Determination for 2025-26.

We note that the Welsh Government's First Supplementary Budget for 2024-25 was published on 1 October. It includes additional consolidated pay awards (above the original 3%) for the lowest-paid grades at the Commission in this current financial year. It is due to be debated in Plenary on 22 October, and we urge all Members to support it.

PCS asks the Finance Committee to bear in mind the importance of stability and operational viability in these critical years, and the scale of the challenge facing the Commission and its staff because of Members' commitment to Reform, when applying its Statement of Principles in scrutiny. We also expect Members to support this budget, and to press for the robust funding that this institution needs before, during and after Reform.

Yours sincerely

*Jayne Smith*

Jayne Smith

PCS Industrial Officer

---

[1] https://record.senedd.wales/Committee/14896#C615179

Medi 2024

Eitem 3

# **Adolygiad annibynnol** o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad

Panel adolygu

**Dr Melissa McCullough** (Adolygydd Arweiniol)
**Mr John Devitt**
**Mr Shane McAteer**

# Crynodeb o'r adolygiad

Ar 26 Mawrth 2024, cafodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gŵyn wedi ei phrofi am bostiadau cyfryngau cymdeithasol a wnaed gan Reolwr Tîm y Cod ar y pryd. Roedd nifer o'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn wleidyddol eu natur. Daeth y cyfryngau'n ymwybodol o'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a mynegwyd pryderon ynghylch egwyddorion arweiniol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ran didueddrwydd ac annibyniaeth, gyda rhai'n galw am ddiddymu'r Ombwdsmon.

Gwaharddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Reolwr Tîm y Cod ar 29 Mawrth 2024 ac ymddiswyddodd ar 3 Ebrill 2024. Ym mis Mai 2024, comisiynodd yr Ombwdsmon yr adolygiad annibynnol hwn i sefydlu a oedd prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau Tîm Cod yr Ombwdsmon mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion gan Dîm y Cod a chyn Reolwr Tîm y Cod wedi bod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol, ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd. Nid oedd yr adolygiad yn cynnwys ymchwiliad i Reolwr Tîm y Cod na'r digwyddiad ei hun.

Roedd yr adolygiad yn edrych ar brosesau a dirprwyaethau Tîm y Cod. Roedd cwmpas yr adolygiad hefyd yn archwilio 673 o achosion lle'r oedd penderfyniadau i beidio ag ymchwilio wedi cael eu gwneud ynghyd ag 11 ymchwiliad a ddaeth i ben, a oedd i gyd yn cyfrif am benderfyniadau Tîm y Cod naill ai'n uniongyrchol gan y Rheolwr Tîm y Cod neu'r broses o wneud penderfyniadau yr oedd yr Rheolwr Tîm y Cod yn goruchwylio ar eu rhan. Fel rhan o'r adolygiad, cynhaliwyd cyfweliadau gyda swyddogion ymchwilio Tîm y Cod, y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Chyn-reolwr Tîm y Cod i sefydlu a oedd y Cyn-reolwr wedi mynegi ei barn bersonol ar faterion gwleidyddol yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff.

Canfu'r adolygiad fod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol. Mewn perthynas â'r achosion a adolygwyd, ni chanfu'r adolygiad unrhyw dystiolaeth o wneud penderfyniadau sydd â thuedd wleidyddol. Cafodd yr achosion a adolygwyd eu dadansoddi'n drylwyr ac roedd y broses o wneud penderfyniadau yn rhesymegol, yn gyson, yn gadarn ac wedi ei chofnodi'n llawn ar gyfer pob achos a adolygwyd. Roedd y rhwystrau a'r gwrthbwysau yn y broses yn amlwg, gan roi sicrwydd pellach o ran ansawdd y penderfyniadau di-duedd. Canfu'r adolygiad fod y prosesau'n cael eu dilyn yn ddilychwin gan y Swyddogion Ymchwilio Annibynnol, gan gynnwys yr Rheolwr Tîm y Cod. Ni chanfu'r adolygiad unrhyw dystiolaeth bod y Rheolwr Tîm y Cod wedi mynegi ei barn bersonol ar faterion gwleidyddol sy'n debyg i'w postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff.

Er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei weithrediadau, dylai gwaith yr Ombwdsmon, yn enwedig ar safonau sy'n ymwneud â llywodraeth leol yng Nghymru, ddilyn proses deg sydd wedi ei diffinio'n dda, a dylai ddangos gwaith dadansoddi a rhesymu rhagorol i sicrhau bod penderfyniadau'n amlwg yn ddiduedd. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfeirio at ragoriaeth o'r fath, mewn asesiadau a phrosesau cwynion. Dylai hyn roi llawer o sicrwydd i'r cyhoedd y gallant ymddiried yng ngwaith yr Ombwdsmon a bod â ffydd ynddo a'i Dîm Cod.

# Talfyriadau ac Acronymau

| | |
|---|---|
| **OGCC** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **DOI/COO** | Cyfarwyddwr Gwella a Phrif Swyddog Gweithredu |
| **DOI/CLA** | Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol |
| **CTM** | Rheolwr Tîm y Cod |
| **FCTM** | Cyn Reolwr Tîm y Cod [1 Ebrill 2021 i 31 Awst 2023] |
| **PAAF** | Ffurflen Cyn-asesu ac Asesu |

# Cynnwys

**Adolygiad annibynnol o ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad 5**

Cyflwyniad 5

Y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn 5

Cwmpas a Phwrpas yr Adolygiad 5

**Methodoleg yr adolygiad 7**

Adolygiad dogfennol 7

Adolygu'r achos 7

Cyfweliadau â staff 7

**Canlyniadau'r Adolygiad 8**

**Adolygiad o Brosesau a Dirprwyaethau 8**

Cyflwyniad 8

Materion a archwiliwyd 8

Casgliad 13

**Canlyniadau Adolygiad Achosion Tîm y Cod 14**

Cyflwyniad 14

Canlyniadau 14

Darnau o'r hysbysiad o benderfyniad 16

Casgliad 19

**Adolygu'r achosion ymchwilio a derfynwyd lle'r oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn "berchennog achos" 20**

**Cyfweliadau â staff ynghylch mynegi barn bersonol ar faterion gwleidyddol 21**

Tîm y Cod 21

Casgliad 25

**Argymhellion 26**

**Gwersi a ddysgwyd 28**

**Casgliad yr adroddiad 29**

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl** 30

Cefndir 30

Cyd-destun 30

Cwmpas a Phwrpas yr Adolygiad 30

Cwynion Cod Ymddygiad nad ydynt yn cael eu hymchwilio 31

Cwynion Cod Ymddygiad – achosion yr ymchwilir iddynt 31

Casglu Tystiolaeth 33

Elfennau i'w cyflawni 34

**Atodiad 2: Nifer yr achosion a adolygwyd gan berchennog yr achos** 35

**Atodiad 3: Canran yr achosion a adolygwyd fesul pwnc** 36

# Adolygiad annibynnol o ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad

## Cyflwyniad

1. Sefydlwyd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2006 gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005. Diddymwyd y Ddeddf hon yn 2019, ac yn ei lle daeth Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019[1] ("Deddf 2019").

2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw 1) ymchwilio i gwynion bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; 2) ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr Cymru wedi torri eu Cod Ymddygiad; a 3) gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol ledled Cymru.

## Y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn

3. Ar 26 Mawrth 2024, cafodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gŵyn wedi ei phrofi bod aelod o staff (y cyfeirir ati yma fel "Cyn-reolwr Tîm y Cod") wedi bod yn gwneud postiadau cyfryngau cymdeithasol amhriodol ac annerbyniol o natur wleidyddol.

4. Cafodd Cyn-reolwr Tîm y Cod ei hatal dros dro ar 29 Mawrth 2024 ac ymddiswyddodd o'i rôl gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 3 Ebrill 2024. Hyd at ddiwedd mis Awst 2023, roedd y Cyn-reolwr wedi bod yn arwain Tîm y Cod yn asesu ac yn ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000[2] ("Deddf 2000").

5. Gwnaed Gyn-reolwr Tîm y Cod nifer o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o natur wleidyddol, gan gynnwys bostiad ymateb a oedd yn dweud "F*** the Tories". Cafwyd sylw yn y cyfryngau, yn ogystal â chwestiynau a phryderon ynghylch didueddrwydd ac annibyniaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6. Comisiynwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oedd ei gylch gwaith yn cynnwys ymchwilio i'r digwyddiad na Chyn-reolwr Tîm y Cod. Yn hytrach, roedd gan yr adolygiad y cwmpas a'r pwrpas a ganlyn.

## Cwmpas a Phwrpas yr Adolygiad[3]

7. Pwrpas yr adolygiad annibynnol hwn oedd edrych ar brosesau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer asesu ac ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru wedi torri eu Cod Ymddygiad. Nod yr adolygiad hwn oedd rhoi sicrwydd ynghylch a yw Tîm Cod

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/contents/welsh
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/22/part/III/chapter/III
[3] Atodiad 1

Ymddygiad yr Ombwdsmon wedi prosesu, dirprwyo a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion gan Dîm y Cod a chyn-reolwr Tîm y Cod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol,[4] ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd.

8. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr elfennau a ganlyn. (ynghlwm yn Atodiad 1)

(1) Adolygu prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

(2) Adolygu penderfyniadau a wnaed gan y cyn arweinydd tîm a'i thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad rhwng 1 Ebrill 2021 a 22 Hydref 2023, er mwyn sicrhau bod prawf dau gam yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso'n briodol a bod penderfyniadau'n rhydd rhag rhagfarn wleidyddol (673 o achosion).

(3) Adolygu'r achosion lle yr oedd y cyn arweinydd tîm yn 'berchennog achos' a gafodd eu hymchwilio a'u cau heb eu cyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 22 Hydref 2023, er mwyn sicrhau nad oes tystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ddelio â'r achosion hyn (11 o achosion).

(4) Nodi a oes tystiolaeth bod arweinydd y tîm wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol sy'n debyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(5) Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Prif Adolygydd yn eu hystyried yn briodol a chyhoeddi adroddiad terfynol y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd.

[4] At ddibenion yr adolygiad hwn, canfyddir rhagfarn wleidyddol lle ceir tystiolaeth bod y penderfyniad ar achos wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.

# Methodoleg yr adolygiad

9. Mae'r canlynol yn amlinellu sut cyflawnwyd gwahanol rannau'r adolygiad hwn.

## Adolygiad dogfennol

10. Roedd y dogfennau a archwiliwyd yn cynnwys: Proses Gwynion y Cod Ymddygiad (y llawlyfr proses); nodyn cyfarwyddyd mewnol Proses Gwynion y Cod Ymddygiad – Cynllun Dirprwyo; y Broses Adolygu Penderfyniadau; y daflen ffeithiau Cod Ymddygiad – Asesu Budd y Cyhoedd; y Weithdrefn Datrysiad Lleol a Pholisi Safonau Ymddygiad Staff yr Ombwdsmon.

## Adolygu'r achos

11. Adolygwyd 673 o achosion lle gwnaed penderfyniadau i beidio ag ymchwilio gan Dîm y Cod yr oedd eu haelodau'n cael eu harwain gan y Cyn-reolwr. Cafodd 11 o achosion eraill, yr ymchwiliwyd y cyn-reolwr iddynt, ac a derfynwyd yn dilyn hynny gan y DOI/CLA, eu hadolygu hefyd.

12. Dau aelod o'r tîm adolygu a gynhaliodd yr adolygiad o achosion. Fe wnaethom geisio graddnodi ein dull gweithredu drwy adolygu tri deg o achosion gyda'i gilydd ar y dechrau i sicrhau cysondeb o ran gwaith adolygu'r dogfennau, gan gynnwys prif rannau'r broses, tystiolaeth, y prawf dau gam a pharamedrau adolygu cyffredinol ar gyfer pob achos. Ar ôl calibreiddio, roedd achosion yn cael eu rhannu ar hap a'u dyrannu yn ôl eilrifau ac odrifau'r achosion. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol yr adolygiad i ddiweddaru a thrafod yr achosion, nodi anghysonderau neu gwestiynau a oedd yn codi, ac i gofnodi themâu a oedd yn dod i'r amlwg.

13. Nid yw'r Ombwdsmon yn cadw gwybodaeth yn fwriadol sy'n ymwneud ag ymlyniad gwleidyddol aelodau sy'n destun y gŵyn. Ar y dechrau, roedd yr adolygiad yn casglu cysylltiadau gwleidyddol hysbys at ddibenion croesgyfeirio, os oedd angen, yn ystod y cam adolygu achosion.

14. Ar ôl i bob achos gael ei adolygu, roedd y trydydd aelod o'r tîm adolygu nad oedd yn ymwneud â'r adolygiad achos sylweddol yn cynnal proses samplo o 5% (n=34). Roedd y rhain yn cynrychioli 24 o achosion Tîm y Cod a 10 achos gan y cyn-reolwr a oedd yn cynnwys 5 penderfyniad adolygu achosion yr Ombwdsmon.

## Cyfweliadau â staff

15. Cyn yr adolygiad achos sylweddol, cyfwelwyd â 10 aelod o Dîm y Cod yn ymwneud â'r 673 o achosion a oedd yn cael eu hadolygu. Ar ôl cwblhau'r adolygiad achos, cyfwelwyd â'r Cyn-reolwr a'r DOI/CLA.

16. Cynhaliwyd cyfweliadau ar sail cyfrinachedd a gyda'r bwriad o sefydlu a oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff ar Dîm y Cod.

17. Cafodd yr holl gyfweliadau eu recordio a'u trawsgrifio at ddibenion yr adolygiad. Rhoddwyd trawsgrifiadau i'r rhai a gyfwelwyd i sicrhau bod pob cyfwelai yn fodlon bod y trawsgrifiad yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd ganddynt.

18. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig â llaw i nodi patrymau neu themâu a ddaeth i'r amlwg o ddata'r cyfweliadau. Cafodd darnau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn eu cymeradwyo gan y sawl a wnaeth y datganiad.

# Canlyniadau'r Adolygiad

## Adolygiad o Brosesau a Dirprwyaethau

### Cyflwyniad

19. Roedd yr elfen hon o'r adolygiad (h.y. elfen gyntaf y cylch gorchwyl) yn cynnwys archwilio prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn benodol o ran sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys ystyried y ddogfen 'Proses Gwynion Cod Ymddygiad' (y llawlyfr proses) a ddefnyddir 'i reoli derbyn, asesu, ymchwilio ac adrodd ar gwynion a wnaed i'r Ombwdsmon lle gellid fod wedi torri Cod Ymddygiad Enghreifftiol yr Awdurdodau Lleol' ac sy'n gweithredu fel 'cyfarwyddeb i staff ar reoli achosion'.[5]

20. Roedd dogfennau eraill a archwiliwyd yn cynnwys: nodyn cyfarwyddyd mewnol Proses Gwynion y Cod Ymddygiad – Cynllun Dirprwyo; y Broses Adolygu Penderfyniadau; y daflen ffeithiau Cod Ymddygiad – Asesu Budd y Cyhoedd; y Weithdrefn Datrysiad Lleol a Pholisi Safonau Ymddygiad Staff yr Ombwdsmon. Yn deillio o'r ymarfer hwn, codwyd pwyntiau amrywiol i'w hegluro ac ymatebwyd iddynt drwy ohebiaeth â'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol (DOI/CLA).

### Materion a archwiliwyd

21. Fel rhan o'r elfen hon o'r adolygiad, archwiliwyd y materion a ganlyn a nodwyd y canfyddiadau:

**Dogfennu ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd**

22. O'r ymarfer adolygu achosion, nodwyd bod ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd weithiau'n cael ei gofnodi ar y Ffurflen Cyn-asesu ac Asesu (PAAF) ar ddechrau'r broses asesu cwynion. Mae'n ymddangos bod cofnodi ymlyniad gwleidyddol yn ganlyniad i'r gofyniad yn y llawlyfr proses sy'n datgan: 'Dylid ychwanegu manylion yr Aelod a Gyhuddwyd at y PAAF drwy gysylltu â thudalen gwefan berthnasol y Cyngor a thynnu sgrinlun o'r manylion.'[6]

    Trafodwyd y mater hwn yn ystod y cyfweliadau staff a nodwyd y gallai'r sgrinlun o wefan y Cyngor gynnwys manylion ymlyniad gwleidyddol, ac mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei chofnodi ar y PAAF fel sgil-gynnyrch y gweithredu gweinyddol hwnnw. Roedd consensws nad oes angen gwybodaeth o'r fath ac na ddylid ei chofnodi yn ystod y cam asesu. Nodwyd hefyd, mewn achosion unigol lle mae cysylltiad gwleidyddol yn berthnasol i naratif y gŵyn, y byddai'r sefyllfa'n amlwg o'r dystiolaeth achos neu y gallai'r ymchwilydd ei gwirio os oes angen.

[5] Tudalen 6 y llawlyfr proses.

[6] Paragraff 4.2 y llawlyfr proses.

**Aelod a gyhuddwyd heb gael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad**

23. Ystyriwyd y mater hwn o ran tegwch y broses. Nodwyd nad yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl i'r broses asesu gael ei chwblhau a bod y gŵyn naill ai'n cael ei gwrthod neu yr ystyrir ei bod wedi bodloni'r prawf dau gam i ymchwiliad ddechrau. Os penderfynir peidio ag ymchwilio, bydd yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael copi wedi ei olygu o'r datganiad o resymau, ond yn gyffredinol nid yw'n cael copi o'r gŵyn.[7] Os penderfynir ymchwilio, bydd yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael copi wedi ei olygu o'r gŵyn (ac unrhyw ymateb i lythyr amodol').[8]

24. Cyn y broses y cyfeirir ati uchod ym mharagraff 23, byddai'r Ombwdsmon wedi rhoi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Cyn penderfynu newid y broses, ymgynghorodd yr Ombwdsmon â Swyddogion Monitro drwy rwydwaith y Grŵp Swyddogion Monitro Llywodraeth Leol i egluro'r rhesymau dros y newid. Y prif reswm oedd lleihau pryder diangen i aelodau ynghylch cwynion nad ydynt yn cael eu hymchwilio yn y pen draw. Rheswm arall oedd bod rhoi gwybod i'r aelod am y gŵyn lawn ar ôl derbyn y gŵyn weithiau wedi ysgogi'r aelod i ddechrau casglu ei dystiolaeth ei hun i amddiffyn ei sefyllfa, ac roedd hyn hefyd wedi arwain at rai cwynion 'talu'r pwyth'. Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r farn bod newid y dull gweithredu i'r un presennol yn ffordd fwy effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Ar ôl treialu'r dull newydd hwn am ychydig fisoedd, ni chodwyd pryderon gan Swyddogion Monitro, a chafodd y broses hon ei mabwysiadu.

25. O ran y newid hwn i'r broses, mynegodd y staff a gyfwelwyd y safbwyntiau a ganlyn o ran y dull blaenorol: bod cyfathrebu cyn-asesu o'r fath yn ddiangen ac y gall achosi pryder diangen i'r Aelod a Gyhuddwyd o ran cwynion nad ydynt yn cael eu hymchwilio yn y pen draw; ei fod yn rhoi mwy o draul ar adnoddau'r Ombwdsmon pan oedd yn cynnwys trafodaethau cyn-asesu gyda'r Aelod a Gyhuddwyd; a bod rhoi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am gŵyn ar gam cynnar yn gallu arwain at gwynion 'talu'r pwyth'. Nododd y staff fod gan yr hen ddull fanteision o ran tegwch a thryloywder.

**Penderfyniadau i beidio ag ymchwilio**

26. Roedd yr adolygiad yn gofyn am eglurhad ynghylch a oes unrhyw fecanwaith adolygu/gwirio ar waith (heb ystyried y ddarpariaeth ym mharagraff 5.15 o'r llawlyfr proses a'r Broses Adolygu Penderfyniadau) mewn perthynas â phenderfyniadau Swyddog Ymchwilio i beidio ag ymchwilio (e.e. samplu ar hap fel rhan o broses archwilio). Yn hynny o beth, o'r cyfweliadau staff, nodwyd y gallai fod gwerth cael mecanwaith sicrhau ansawdd mewn perthynas â phenderfyniadau Swyddog Ymchwilio i beidio ag ymchwilio ar sail y prawf budd y cyhoedd. Cadarnhawyd wedyn, ar wahân i achosion lle mae "cais am adolygiad" penodol gan yr achwynydd, nad oes hapsamplu'n digwydd o ansawdd penderfyniadau'r Swyddog Ymchwilio, naill ai'n gyffredinol i adolygu penderfyniadau a wnaed neu'n benodol mewn perthynas â chymhwyso'r prawf budd y cyhoedd. Nodwyd, fodd bynnag, bod y Swyddog Ansawdd Gwasanaeth yn samplu achosion ar hap o safbwynt "safon gwasanaeth" ond nad yw hyn yn ystyried ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.[9]

---

[7] Paragraffau 5.12 a 5.13 o'r llawlyfr proses.

[8] Llythyr "amodol" yw'r llythyr sy'n cael ei anfon at yr achwynydd yn gofyn am unrhyw wybodaeth a deunydd tystiolaethol ychwanegol i ategu'r gŵyn; Paragraffau 7.1 o lawlyfr y broses.

[9] Gohebiaeth â'r DOI/CLA, dyddiedig 7 Awst 2024.

**Cynigion i ymchwilio, ymestyn ymchwiliadau a chychwyn ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun**

27. Derbyniodd yr adolygiad eglurhad ar faterion amrywiol yn hyn o beth. O'r llawlyfr proses, mae'n amlwg bod Rheolwr Tîm y Cod wedi dirprwyo awdurdod i wrthod cynigion y Swyddog Ymchwilio i ymchwilio a chynigion y Swyddog Ymchwilio i ymestyn yr ymchwiliad neu gychwyn ymchwiliad newydd yn erbyn aelod arall.[10] Er na chyfeirir yn benodol at hyn yn y Cynllun Dirprwyo, cadarnhawyd, yn ymarferol, oherwydd lefel rôl Rheolwr Tîm y Cod, y gallai Rheolwr Tîm y Cod wrthod cynnig Swyddog Ymchwilio i ymchwilio. Cynghorwyd yr adolygiad hefyd, os oes anghytundeb cryf rhwng y Swyddog Ymchwilio a Rheolwr Tîm y Cod, neu os yw Rheolwr Tîm y Cod o'r farn y gallai'r penderfyniad i beidio ag ymchwilio fod yn un dadleuol, y byddant yn cyfeirio achos at y DOI/CLA i gael barn, er nad yw'r arfer hwn wedi ei amlinellu yn y llawlyfr proses/Cynllun Dirprwyo. Ar ben hynny, cadarnhawyd, ar wahân i'r Broses Adolygu Penderfyniadau, nad oes mecanwaith adolygu/gwirio ar waith mewn perthynas â phenderfyniadau Rheolwr Tîm y Cod.

28. Gofynnodd yr adolygiad hefyd am eglurhad: ynghylch a oes gan y Swyddog Ymchwilio ddisgresiwn ynteu a oes angen iddo gynnig estyniad/ymchwiliad annibynnol os, yn ystod ymchwiliad, nodir achosion posib eraill o dorri'r Cod, naill ai'n ymwneud â'r Aelod Cofrestredig sy'n destun ymchwiliad neu aelod arall; ar ba sail na fyddai'r CTM yn cytuno i ymestyn yr ymchwiliad neu ddechrau ymchwiliad newydd yn erbyn aelod arall; a pha un a yw'r Aelod wedi dirprwyo awdurdod i wneud y penderfyniad hwn (gan nad yw wedi ei gynnwys yn y Cynllun Dirprwyo).

29. Cadarnhawyd, wrth ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd, mai mater i'r Swyddog Ymchwilio yw defnyddio ei ddisgresiwn/barn ar achosion o ran a ddylid argymell, ar sail bodloni'r prawf dau gam, y dylid ymestyn ymchwiliad i ystyried achosion posib eraill o dorri amodau gan yr Aelod sy'n destun ymchwiliad neu argymell bod Aelod arall yn cael ei ymchwilio.  Dywedwyd wrth yr adolygiad, os bydd Rheolwr Tîm y Cod neu'r DOI/CLA yn anghytuno ynghylch argymhelliad o'r fath, y bydd ar y sail nad yw'r prawf dau gam yn cael ei fodloni (e.e. nid yw'r mater yn ddigon difrifol a/neu mae'n ymddangos bod y toriad yn un bach/technegol). Cadarnhawyd hefyd, er nad yw'n cael ei nodi yn y Cynllun Dirprwyo, bod gan Reolwr Tîm y Cod, yn ymarferol, awdurdod dirprwyedig i beidio ag ymestyn yr ymchwiliad.

30. O ran diogelwch rhannol, fodd bynnag, nodwyd bod yr holl achosion ymchwilio yn cael eu hadolygu yn y pen draw gan naill ai'r Ombwdsmon neu'r DOI/CLA cyn iddynt gael eu cau (gan yr Ombwdsmon yn bersonol os yw achos yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor safonau/Panel Dyfarnu Cymru neu gan y DOI/CLA os daw i ben a/neu os nad oes camau pellach/dim tor-amod yn briodol). Gan hynny, fel rhan o'r ymarfer adolygu hwnnw, gellir nodi achosion posib eraill o dorri amodau, sy'n bodloni'r prawf dau gam, neu gellir cymryd golwg groes ar unrhyw benderfyniad cynharach ynghylch estyniadau, ac os felly rhoddir cyfarwyddyd i'r Swyddog Ymchwilio gynnwys y materion ychwanegol.[11]

**Cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau**

31. Wrth asesu tegwch y broses, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r cyfleoedd mae'r Aelod a Gyhuddwyd yn eu cael i roi sylwadau ar yr

[10] Gweler paragraffau 6.1 ac 8.1 y llawlyfr proses.

[11] Gohebiaeth â'r DOI/CLA, dyddiedig 7 Awst 2024.

honiadau yn ei erbyn, yn enwedig wrth i'r ffeithiau gael eu sefydlu yn ystod y broses ymchwilio. Nodwyd o'r llawlyfr proses: bod yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael yr holl dystiolaeth berthnasol a gasglwyd cyn y cyfweliad ac yna'n cael cyfle i roi sylwadau ar hyn yn y cyfweliad; pan fydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y Panel Dyfarnu Cymru/pwyllgor safonau, anfonir adroddiad drafft at yr Aelod a Gyhuddwyd i gael sylwadau arno cyn iddo gael ei gwblhau; a bydd unrhyw sylwadau a wneir gan yr Aelod a Gyhuddwyd mewn ymateb i'r adroddiad drafft yn cael eu crynhoi yn yr adroddiad terfynol, gan roi ystyriaeth briodol iddo ac fel arfer bydd yn cael ei gynnwys yn atodiadau'r adroddiad.[12]

32. Dywedwyd wrth yr adolygiad: y byddai'r holl ffeithiau perthnasol sy'n allweddol i weld a fu achos o dorri'r Cod yn cael eu harchwilio gyda'r aelod yn y cyfweliad a bod yr wybodaeth sy'n deillio o hynny'n cael ei defnyddio i benderfynu pa ffeithiau sy'n destun dadl neu'n cael eu derbyn; yn dilyn cyfweliad, dadansoddir y dystiolaeth a phenderfynir ar ffeithiau dadleuol yn ôl cydbwysedd tebygolrwydd; nid yw'r "canfyddiadau ffeithiol" yn cael eu rhannu gyda'r Aelod a Gyhuddwyd cyn cyhoeddi'r adroddiad drafft fel bo'n berthnasol; pwrpas rhannu'r adroddiad drafft, sy'n cynnwys amlinelliad o'r ffeithiau "a ddadleuwyd" a'r ffeithiau "nad oes dadl yn eu cylch", yw rhoi cyfle i'r aelod wneud sylwadau, gan gynnwys ar y "ffeithiau" a'r "casgliadau", cyn i'r Ombwdsmon wneud penderfyniad terfynol; ac mai rôl yr Ombwdsmon yw cyfeirio achosion lle mae ei "ganfyddiadau ar sail ffeithiau" yn *awgrymu* tor-amod (tra ar y llaw arall, fel rhan o broses y gwrandawiad, mae Panel Dyfarnu Cymru/y pwyllgor safonau yn gwneud canfyddiadau terfynol ar sail ffeithiau ynghylch a fu achos o dorri amodau'r Cod).[13]

**Ailasesu/ailystyried cwynion**

33. Roedd yr adolygiad hefyd yn gofyn am eglurhad ar rannu cyfrifoldebau yn hyn o beth, gan gynnwys: a yw'r Swyddog Adolygu Arweiniol wedi dirprwyo awdurdod gwneud penderfyniadau ar geisiadau adolygu i ailasesu/ailystyried cwynion (gan nad yw hyn yn glir yn y Cynllun Dirprwyo); ac a yw Swyddog Ymchwilio gwahanol yn ymgymryd â'r gwaith ailasesu/ailystyried pan fydd y Swyddog Adolygu Arweiniol yn cadarnhau cais am adolygiad o gŵyn.[14] Cadarnhawyd bod y Swyddog Adolygu Arweiniol wedi dirprwyo awdurdod gwneud penderfyniadau yn y maes hwn a bod Swyddog Ymchwilio gwahanol yn ystyried y gŵyn o'r newydd pan fydd cais am adolygiad yn cael ei gadarnhau.[15]

**Mesurau diogelu eraill sy'n bodoli**

34. Yn ogystal â'r rhwystrau a'r gwrthbwysau gweithdrefnol y cyfeiriwyd atynt uchod, mae'r adolygiad wedi nodi amrywiaeth o fesurau diogelu ac arferion da eraill sy'n sail i briodoldeb, tegwch a didueddrwydd y broses. Er enghraifft:

- Mae'n ofynnol i'r achwynydd lenwi datganiad datgelu, gan gynnwys cadarnhau: ei fod yn cytuno y bydd manylion y gŵyn, gan gynnwys ei hunaniaeth, yn cael ei rannu â'r Aelod a Gyhuddwyd ac eraill fel bo'n briodol; a'i fod yn barod i roi tystiolaeth lafar i ategu ei gŵyn (ac, os yw'r achwynydd yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd parti,

[12] Paragraffau 12.4, 13.8 a 13.10 yn y llawlyfr proses. Nodwyd hefyd, at ddibenion tryloywder, bod sylwadau a ddarparwyd gan yr Aelod a Gyhuddwyd sy'n amherthnasol i'r materion yr ymchwilir iddynt, ac nad ydynt felly wedi eu cynnwys yn atodiadau'r adroddiad, wedi eu rhestru mewn 'Atodlen o Ddeunydd Heb ei Ddefnyddio' a gyhoeddir gyda'r adroddiad terfynol.

[13] Gohebiaeth â'r DOI/CLA, dyddiedig 7 a 9 Awst 2024.

[14] Paragraffau 15.5 a 15.11 o'r llawlyfr proses.

[15] Gohebiaeth â'r DOI/CLA, dyddiedig 7 Awst 2024.

rhoddir ystyriaeth i'r angen i gael datganiad gan y trydydd parti hwnnw i rannu'r wybodaeth hon)[16];

- Dylai'r Ombwdsmon ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio i gŵyn ai peidio o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y derbynnir gwybodaeth foddhaol ("DSIR")[17];

- Mae'r holl gamau a phenderfyniadau perthnasol sy'n arwain at y penderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio i'r gŵyn yn cael eu cofnodi'n systematig ar y PAAF;

- Mae'r llawlyfr proses yn cynnwys canllawiau manwl ar Erthygl 10, ystyriaethau rhyddid mynegiant;

- Mae'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau yn cael ei gofnodi a'i egluro drwy gydol y broses – e.e. y gofynion ar y Swyddog Ymchwilio i ddarparu esboniad ar y PAAF o bob agwedd ar y prawf dau gam ac i roi datganiad ysgrifenedig i'r achwynydd o'r rhesymau dros y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad neu i roi'r gorau i ymchwiliad[18];

- Cynhelir ymchwiliadau'n breifat ac mae pwyslais ar fod yn ofalus wrth rannu gwybodaeth yn ystod yr ymchwiliad er mwyn cynnal cyfrinachedd lle bo hynny'n briodol[19];

- Mae'n ofynnol i'r Swyddog Ymchwilio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod a Gyhuddwyd a'r achwynydd am gynnydd yr ymchwiliad o leiaf bob 6-8 wythnos[20];

- Rhaid i benderfyniad i ddirwyn yr ymchwiliad i ben am unrhyw reswm gael sêl bendith y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/yr Ombwdsmon[21];

- Mae'r broses adolygu'n cael ei rheoli gan y Swyddog Adolygu Arweiniol sy'n gweithredu'n annibynnol ar Dimau Asesu ac Ymchwilio'r Ombwdsmon i ddarparu adolygiad "golwg o'r newydd" ac sy'n uniongyrchol atebol i'r Ombwdsmon[22];

- Mae Polisi Safonau Ymddygiad Staff yr Ombwdsmon yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â thegwch a didueddrwydd, gan gynnwys, er enghraifft, 'pwysigrwydd mwyaf y dylai staff yr Ombwdsmon fod yn ddiduedd ac yn amhleidiol, a chael eu gweld yn y modd hwnnw"[23]; a

- Mae rhaglen gynefino a hyfforddiant yr Ombwdsmon ar gyfer staff yn ymdrin â rhagfarn ddiarwybod a hyfforddiant ar wneud penderfyniadau'n deg.

---

[16] Gweler adran 3 y llawlyfr proses.
[17] Paragraff 5.2 y llawlyfr proses.
[18] Paragraffau 5.7, 5.11 ac 11.4 yn y llawlyfr proses.
[19] Gweler, er enghraifft, baragraffau 5.12 a 7.8 yn y llawlyfr proses.
[20] Paragraff 7.11 y llawlyfr proses.
[21] Paragraff 11.2 y llawlyfr proses.
[22] Paragraff 7 y Broses Adolygu Penderfyniadau.
[23] Paragraff 7.1 o Bolisi Safonau Ymddygiad Staff yr Ombwdsmon, Hydref 2022 (v. 3.0).

**Casgliad**

35. **Mae’r adolygiad wedi canfod, yn gyffredinol, bod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gadarn o ran diogelu tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi eu dogfennu’n dda ac wedi eu hategu gan ganllawiau priodol ac mae'n ofynnol cofnodi ac egluro’r rhesymau dros y penderfyniad fel bo’n berthnasol.**

36. Roedd yr adolygiad dogfennol hefyd yn nodi rhai agweddau ar y canllawiau a allai elwa ar ddiwygiadau esboniadol ac mae’r awgrymiadau yn y cyswllt hwn wedi eu hamlinellu yn yr argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# Canlyniadau Adolygiad Achosion Tîm y Cod

## Cyflwyniad

37. Mae'r elfen hon o'r adolygiad yn ymwneud â chylch gorchwyl 2 a 3, ac roedd yn edrych ar y penderfyniadau a wnaed gan Gyn-reolwr Tîm y Cod a'i Thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad, er mwyn sicrhau bod prawf dau gam yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso'n briodol a bod penderfyniadau'n rhydd o ragfarn wleidyddol.

38. O'r 673 o achosion a adolygwyd, roedd 584 yn eiddo i 11 aelod o Dîm y Cod gyda goruchwyliaeth Cyn-reolwr Tîm y Cod ac roedd 89 yn eiddo i'r Cyn-reolwr.[24]

39. Roedd yr adolygiad yn ystyried amrywiaeth eang o achosion[25], ac roedd y mwyafrif llethol (98%) o'r achosion a adolygwyd yn erbyn cynghorwyr o Awdurdodau Lleol neu Gynghorau Cymuned.

40. Ar gyfer yr holl achosion a adolygwyd, nid oedd yn angenrheidiol croesgyfeirio'r achos ag ymlyniad gwleidyddol yr aelod a oedd yn destun y gŵyn. Y rheswm am hyn oedd nad oedd yr adolygiad wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod unrhyw benderfyniad achos wedi ei wneud ar sail unrhyw beth ar wahân i'r dystiolaeth a oedd ar gael, y ffeithiau a sefydlwyd a'r casgliadau rhesymegol canlyniadol.

## Canlyniadau

41. Roedd yr adolygiad achos yn ystyried a oedd y broses gyffredinol yn cael ei dilyn yn unol â'r llawlyfr proses. Drwy'r dogfennau a archwiliwyd, roedd yn amlwg bod y broses yn cael ei dilyn ym mhob achos a adolygwyd.

42. Roedd PAAF yn bresennol ym mhob achos a adolygwyd ac roedd yn cynnwys mewnbwn cychwynnol gan y Tîm Derbyn gan gynnwys cyfeiriad yr aelod y cwynwyd amdano ac unrhyw achos cysylltiedig neu flaenorol ar y system sy'n ymwneud naill ai â'r gŵyn, yr achwynydd neu'r Aelod y cwynwyd amdano ac unrhyw achos cynsail a allai fod yn berthnasol iddo. Ar ôl ei derbyn, roedd tystiolaeth yn dangos bod Cyn-reolwr Tîm y Cod yn aml yn cofnodi gwybodaeth berthnasol ar y PAAF, gan gynnwys ei syniadau cychwynnol i roi arweiniad i'r aelod o Dîm y Cod a fyddai'n asesu'r gŵyn. Ar ôl i'r Cyn-reolwr gwblhau'r PAAF, byddai'n dyrannu'r achos i aelod o Dîm y Cod i gynnal yr asesiad.

43. Roedd tystiolaeth hefyd bod y Cyn-reolwr yn datgan gwrthdaro yn ystod y cyfnod cynnar hwn (e.e. "Bydd yr asesiad yn cael ei oruchwylio gan [uwch reolwr] os oes angen, yn hytrach na [Cyn Reolwr Tîm y Cod] gan fod gwrthdaro posib rhwng buddiannau – mae [Cyn-reolwr Tîm y Cod] yn adnabod/yn gyfarwydd â'r Cynghorydd").

44. Gellid gweld yr asesiad cyffredinol gan yr aelod penodedig o Dîm y Cod (y Swyddog

[24] Atodiad 2
[25] Atodiad 3

Ymchwilio) yn rhwydd yn y dogfennau ac roedd yn cynnwys eu mewnbwn i'r PAAF, cymhwyso'r prawf dau gam, hysbysiadau penderfynu (y llythyrau a anfonwyd at yr achwynydd ar ôl cwblhau'r asesiad) ac amrywiol ohebiaeth a nodiadau cyfarfodydd eraill gan gynnwys tystiolaeth lle gofynnwyd am unrhyw gyngor a/neu arweiniad gan reolwyr llinell.

45. Cafwyd tystiolaeth o gymhwyso'r prawf dau gam ym mhob achos a adolygwyd, ac fe'i mynegwyd yn y PAAF a'r hysbysiadau penderfynu. Cafodd ansawdd a chynnwys hysbysiadau penderfynu eu hadolygu'n fanwl i sicrhau bod y canlyniad, y penderfyniad a'r defnydd o'r prawf dau gam yn gadarn o safbwynt tystiolaeth ac wedi ei resymu'n glir.

46. Canfu'r adolygiad fod rhan gyntaf y prawf dau gam, sy'n ymwneud ag asesu a oedd tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi ei dorri, wedi ei gyflawni'n gyson, wedi ei ddogfennu a'i nodi'n glir yn y PAAF ac wedi adolygu'r holl hysbysiadau penderfynu. Mewn nifer o achosion, lle nad oedd yn glir o gyflwyniad yr achwynydd pa elfen yn union o'r Cod yr honnir iddi gael ei thorri neu lle gallai tystiolaeth fod ar goll, gofynnwyd am ddeunydd tystiolaeth ychwanegol a gwybodaeth i ategu'r gŵyn ar ffurf llythyr "amodol" a anfonir at yr achwynydd. Ar yr achlysuron pan anfonwyd llythyr "amodol", glynwyd wrth yr holl brosesau perthnasol gan gynnwys amserlenni yn unol â'r llawlyfr prosesau presennol. Pan benderfynodd y Swyddog Ymchwilio nad oedd y gŵyn yn bodloni cam cyntaf y prawf, rhoddwyd esboniad trylwyr i'r achwynydd o'r rheswm dros hynny, gan gynnwys esboniad clir na ystyriwyd ail gam y prawf oherwydd nad oedd y cyntaf wedi ei fodloni ac, ar adegau, ar ben hynny, egluro pam, hyd yn oed pe bai wedi ei fodloni, na fyddai wedi bod er budd y cyhoedd i ymchwilio.

47. Lle bodlonwyd cam cyntaf y prawf, aeth y Swyddog Ymchwilio ymlaen i gymhwyso ail gam y prawf; dyma lle mae'r elfen budd y cyhoedd yn cael ei hystyried. Gall y Swyddog Ymchwilio ystyried nifer o ffactorau ac ystyriaethau perthnasol ar y cam hwn o'r prawf. Roedd tystiolaeth o resymu cyson, trylwyr, sylweddol a chadarn, gan gynnwys tystiolaeth o ystyriaeth a dadansoddiad gofalus ym mhob achos a adolygwyd wrth ystyried y gwahanol ffactorau budd y cyhoedd. Canfu'r adolygiad fod y ffactorau budd cyhoeddus a ganlyn wedi cael eu hystyried a'u profi gan y Swyddogion Ymchwilio: difrifoldeb y tor-amod; a oedd yr aelod wedi ceisio budd sylweddol iddo'i hun neu rywun arall yn fwriadol ar draul y cyhoedd; a oedd amgylchiadau'r toriad yn golygu bod aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i rywun arall; ac a oedd y toriad wedi ei gymell gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn unrhyw un o nodweddion gwarchodedig y dioddefwr. Roedd ystyriaethau perthnasol eraill[26] a ystyriwyd yn rhai o'r achosion a adolygwyd yn cynnwys: amgylchiadau'r gŵyn; i ba raddau roedd y cynghorydd yn gyfrifol am y tor-amod honedig, neu i'w feio am hynny; tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan yr aelod; a oeddent wedi bod yn destun cwynion neu ymchwiliadau blaenorol; a oedd yr ymddygiad honedig yn barhaus, yn ailadroddus neu'n ymddygiad a oedd yn gwaethygu; a oedd yr ymddygiad honedig wedi achosi niwed neu wedi effeithio ar unigolyn, grŵp neu gorff arall; ac ystyriaeth o'r farn a fynegwyd gan yr achwynydd, neu unrhyw un arall yr effeithiodd yr ymddygiad honedig arnynt, o ran yr effaith.

[26] https://www.ombwdsmon.cymru/taflenni-ffeithiau/cod-ymddygiad-asesu-budd-y-cyhoedd/#Ystyriaethau

48. Canfu'r adolygiad, lle'r oedd achwynwyr yn gofyn am adolygiad ac yn cael adolygiad, bod y rhain yn cael eu hystyried gan y Swyddog Adolygu Arweiniol. Ym mhob adolygiad a ystyriwyd, cymerwyd gofal mawr wrth archwilio'r penderfyniad ac egluro'r broses, y rhesymeg a'r canlyniad yn hysbysiad penderfyniad yr adolygiad.

## Darnau o'r hysbysiad o benderfyniad

49. Tynnodd yr adolygiad sylw at lawer o enghreifftiau o arfer rhagorol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a oedd yn amlwg yn yr hysbysiadau penderfynu. Mae ambell sampl wedi eu cynnwys isod. Am resymau cyfrinachedd, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys manylion y gŵyn, ac felly ni allant ddangos yn llawn y rhesymeg a ddarperir yn yr hysbysiadau penderfynu. Serch hynny, er eu bod yn gyfyngedig o ran manylion, mae'n bwysig eu cynnwys.

50. Roedd pob hysbysiad penderfynu yn egluro'r broses i'r achwynydd:

> *"Er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod, rydym yn defnyddio prawf dau gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai torri'r Cod fod wedi digwydd. Yn ail, rydym yn ystyried a fuasai ymchwilio i'r materion y cwynir amdanynt yn fater er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd fel:*
>
> - *difrifoldeb yr ymddygiad honedig*
> - *a oedd yr aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu wedi ceisio manteisio er ei fwyn ei hun neu eraill, ar draul y cyhoedd*
> - *a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig*
> - *a yw ymchwiliad yn gymesur yn yr amgylchiadau ynteu a fyddai atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, os caiff y mater ei brofi, yn briodol."*

51. Roedd llawer o'r penderfyniadau a wnaed i beidio ag ymchwilio yn ymwneud â hawl yr aelod i ryddid mynegiant (Erthygl 10, Deddf Hawliau Dynol 1998). Canfu'r adolygiad fod hyn wedi cael ei egluro'n dda ym mhob penderfyniad lle'r oedd Erthygl 10 yn cael ei defnyddio.

> *"Mae sylw'r Aelod yn ymwneud â mater gwleidyddol ac felly byddai gan yr Aelod fwy o warchodaeth o dan Erthygl 10. Yn yr achos hwn, mae'n annhebygol y byddai'r neges a'r sylw a wneir gan yr Aelod yn cael eu hystyried mor ddifrifol fel y byddai sancsiwn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant. Mae'n wir hefyd bod y sylw'n ymwneud â gwrthwynebwyr gwleidyddol, y disgwylir iddynt hefyd fod â dull 'llai croendenau' o ymdrin â sylwadau a dadleuon gwleidyddol.*
>
> *Nid yw hynny'n golygu nad oes angen i'r Aelod fod yn ymwybodol o'r iaith mae ef/hi yn ei defnyddio. Po fwyaf amlwg yw'r iaith a ddefnyddir a'r lleiaf gwleidyddol yw'r unigolyn (y mae'r sylwadau'n cael eu gwneud amdano), mwyaf tebygol yw hi y byddai sancsiwn yn gymesur. Gan hynny, mae'n bosib y bydd yr Aelod yn dymuno trafod gyda'i Swyddog Monitro, neu arweinydd ei grŵp gwleidyddol, y math o sylwadau mae'n eu gwneud ar fforwm cyhoeddus a pha mor briodol ydynt.*
>
> *Gan ei bod yn annhebygol y byddai sancsiwn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant, hyd yn oed pe bai achos o dorri'r Cod yn cael ei brofi, mae'n*

*annhebygol iawn y byddai sancsiwn yn cael ei osod ar yr aelod. O ystyried hyn, ni fyddai ymchwiliad yn gymesur nac er budd y cyhoedd." CT8*

*"Nid yw'n anghyffredin i aelodau etholedig ddweud pethau am wrthwynebwyr gwleidyddol y gallai eraill eu hystyried yn anghwrtais neu'n sarhaus. Fodd bynnag, nid pwrpas y Cod yw atal rhyddid mynegiant a mynegiant cadarn o wahaniaethau gwleidyddol. Rwyf hefyd wedi egluro o'r blaen bod gan Gynghorwyr ryddid mynegiant eang mewn rhinwedd bersonol a phroffesiynol. Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n rhoi'r hawl i'r Cynghorydd X gael rhyddid i lefaru, yn golygu y gall ddweud pethau a allai fod yn frawychus neu'n dramgwyddus i rai pobl. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi eich bod o'r farn bod sylwadau Cynghorydd X yn fwlio o ran eu natur, ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd nid wyf o'r farn eu bod yn ddigon tramgwyddus, garw[27] neu sarhaus sy'n gyfystyr â bwlio cyd-aelodau neu dorri'r Cod." CT6*

52. Roedd pob hysbysiad penderfynu yn egluro'r sail resymegol mewn perthynas â chymhwyso'r prawf dau gam. Lle nad oedd achwynwyr wedi darparu digon o dystiolaeth i fodloni cam cyntaf y prawf, roedd yr hysbysiad penderfynu yn egluro hyn yn llawn. Ar ben hynny, pan na chafodd y cam cyntaf ei gyflawni, roedd yr hysbysiadau penderfynu yn aml yn egluro pam, hyd yn oed pe bai wedi cael ei gyflawni, na fyddai wedi bod er budd y cyhoedd i ymchwilio. Nododd yr adolygiad hefyd y llythyr atgoffa a oedd yn aml yn cael ei ddarparu yn y mathau hyn o gwynion, nad yw'r Ombwdsmon yn esgusodi'r iaith neu'r ymddygiad dan sylw, a bod y Cynghorydd yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o dan y Cod.

*"Yn wyneb yr uchod i gyd, rwy'n canfod nad ydych chi wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau eich cwynion a dangos bod y Cod wedi cael ei dorri. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai fod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod. Yn unol â hynny, rwyf wedi penderfynu nad yw eich cwyn yn bodloni cam cyntaf y prawf dau gam ac, felly, ni ddylid ymchwilio iddi." CT2*

*"Fel y nodir uchod. Nid wyf wedi fy narbwyllo bod tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Gan hynny, nid oes angen ymchwiliad. Ond er mwyn osgoi amheuaeth, dylwn nodi, hyd yn oed os oeddwn yn fodlon bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri, nad wyf o'r farn y byddai ymchwiliad yn gymesur ac er budd y cyhoedd. Hyd yn oed pe bai toriad yn cael ei brofi, nid wyf o'r farn y byddai sancsiwn tebygol mor sylweddol fel ei fod yn golygu y byddai ymchwiliad yn angenrheidiol nac yn gymesur er budd y cyhoedd." FCTM*

*"Gallai'r ymddygiad rydych chi'n cwyno amdano gael ei ystyried fel achos o dorri'r Cod. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn, nid wyf wedi fy narbwyllo y byddai ymchwilio i'ch cwyn yn gymesur ac er budd y cyhoedd. Wrth benderfynu ar gymesuredd, un ystyriaeth yw a fyddai sancsiwn yn debygol o gael ei roi petai'r cod yn cael ei dorri.*

*Ar ôl ystyried y mater yn ofalus iawn, nid wyf wedi fy narbwyllo ei bod yn debygol y byddai sancsiwn yn cael ei roi ar yr aelod hyd yn oed pe bai toriad yn cael ei brofi. Rydw i'n dweud hyn oherwydd… Er nad yw hyn yn esgusodi'r ymddygiad, byddai hyn yn darparu rhywfaint o liniaru.*

[27] R (ar gais Calver) v Panel Dyfarnu Cymru (2012) EWHC 1172 (Gweinyddol)

*Wedi dweud hynny, ni fyddai'r Ombwdsmon yn esgusodi'r math hwn o iaith, sy'n amharchus ac yn amhroffesiynol, a byddwn yn achub ar y cyfle hwn, ar ran yr Ombwdsmon, i atgoffa'r Cynghorydd X o'i rwymedigaethau o dan y Cod, sydd mewn perthynas â pharagraff 6(1)(a) yn berthnasol bob amser. Dylid cofio hefyd, os bydd cwynion pellach o'r math hwn, y bydd y casgliadau y deuir iddynt mewn perthynas â'r gŵyn hon yn debygol o gael eu hystyried." CT5*

53. Roedd enghreifftiau o achwynwyr yn cael eu cyfeirio at ddatrysiad lleol ac yn cael cyngor defnyddiol arall.

*"Os teimlwch fod tystiolaeth o gamweinyddu yn y modd yr ymdriniodd y Cyngor â'r materion a godwyd gennych, mae'n bosib yr hoffech chi gwyno'n uniongyrchol. Ar ôl gwneud hynny, os ydych chi o'r farn bod tystiolaeth o gamweinyddu sydd wedi achosi anghyfiawnder personol i chi, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:*

*https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/cwynion-yn-erbyn-cyrff-cyhoeddus-ein-dull/" CT5*

54. Mewn achosion lle rhoddwyd adolygiad o'r penderfyniad i beidio ag ymchwilio, dilynodd y Swyddog Adolygu Arweiniol a Thîm y Cod y Broses Adolygu Penderfyniadau. Roedd y llythyrau penderfyniad a gyhoeddwyd gan y Swyddog Adolygu Arweiniol yn drylwyr iawn, yn glir ac yn dangos tystiolaeth o wneud penderfyniadau cadarn. Maent hefyd yn nodi rôl y Swyddog Adolygu Arweiniol a'r ffactorau a ystyriwyd wrth benderfynu a ddylid edrych ar achos eto.

*"Fel Prif Swyddog Adolygu, nid wyf yn ymwneud ag asesu nac ymchwilio i achosion a gyflawnir gan y swyddfa hon. Yn hytrach, rwy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon, a chyda'i hawdurdod dirprwyedig, i benderfynu a oes sail iddi wrthdroi penderfyniad a wnaed yn flaenorol ar achos, ac i gynnal asesiad pellach ohono.*

*Fodd bynnag, rhaid i mi egluro na allaf benderfynu a ddylid edrych ar achos eto dim ond am y gallech anghytuno â'r penderfyniad a wnaethpwyd. Gan hynny, er mwyn i mi ystyried cais am adolygiad,* ***rhaid*** *i achwynydd allu dangos naill ai:*

- *bod gwybodaeth newydd a sylweddol wedi dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y penderfyniad; neu,*
- *wrth ddod i'r penderfyniad, nad oedd gennym ystyriaeth briodol o'r wybodaeth a oedd ar gael i ni.*

*Rhaid i mi bwysleisio hefyd nad fy rôl i yw ailasesu eich cwyn am y Cynghorydd [X], ond, yn lle hynny, mae'n rhaid ystyried a yw'r [Swyddog Ymchwilio] wedi ystyried eich cwyn yn briodol, ac a oedd y penderfyniad a wnaed yn rhesymol, ac yn unol â'n hawdurdodaeth a'n hymarfer statudol wrth ystyried cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad.*

*Rwyf wedi ymgymryd â'm hadolygiad ar y sail honno." Swyddog Adolygu Arweiniol*

*"Gallaf ddeall pam ei bod yn anodd i chi dderbyn penderfyniad y swyddfa hon i beidio ag ymchwilio i'ch cwyn. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o fethiant yn y gwasanaeth yn y penderfyniad ei hun nac yn y ffordd y cafodd ein prawf dau-gam ei gymhwyso. Gan hynny, nid wyf yn cadarnhau eich cais am adolygiad na'ch cwyn.*

*Mae gan yr Ombwdsmon set o safonau gwasanaeth. Rwyf wedi ystyried a ydynt wedi cael eu bodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir i chi gan y swyddfa hon.*

*Roedd ein gwasanaeth yn amlwg yn hygyrch i chi ei ddefnyddio. Rwyf o'r farn bod y [Swyddog Ymchwilio] wedi cyfathrebu'n glir â chi, i egluro sut rydym yn defnyddio'r prawf dau-gam yn ein hasesiad o gwynion Cod Ymddygiad a'i fod wedi ymddwyn yn broffesiynol yn ei ohebiaeth â chi. Rwyf o'r farn bod y penderfyniad a wnaed yn eich achos yn deg ac yn dryloyw." Swyddog Adolygu Arweiniol*

55. Yn ogystal â'r prosesau cadarn a'r penderfyniadau cadarn, rhesymegol, roedd tôn a strwythur pob gohebiaeth, yn enwedig yr hysbysiadau penderfynu a'r hysbysiadau penderfyniadau adolygu, yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Ombwdsmon ar Ofynion Arddull Ty. Er enghraifft, roedd y safon gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth gywir mewn iaith glir a diamwys yn amlwg ym mhob achos a adolygwyd, yn ogystal â sicrhau bod eu cyfathrebu'n adlewyrchu'r "safonau a'r gwerthoedd rydym yn eu harddel" sy'n cynnwys: dangos parch, dangos brwdfrydedd a balchder yn eu gwaith, cymryd cyfrifoldeb, a bod yn gefnogol ac amrywiol. Gwelwyd tystiolaeth o'r dull cyfathrebu cyson hwn ym mhob un o'r achosion a adolygwyd.

## Canlyniad samplu Dip

56. Adolygwyd cyfanswm o 5% o'r achosion fel gwiriad ychwanegol, ac roeddent yn cynnwys 24 achos Tîm y Cod a 10 achos Rheolwr Tîm y Cod. Roedd yr ymarfer samplo hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad achos sylweddol, ac ni chanfu unrhyw dystiolaeth bod cysylltiad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

## Casgliad

57. **Canfu'r adolygiad fod yr holl benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau a rhesymu cadarn, wedi ei seilio'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Ni chanfu'r adolygiad achos unrhyw dystiolaeth fod y penderfyniad ar unrhyw un o'r achosion a adolygwyd wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.**[28]

[28] At ddibenion yr adolygiad hwn, canfyddir rhagfarn wleidyddol lle ceir tystiolaeth bod y penderfyniad ar achos wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.

# Adolygu'r achosion ymchwilio a derfynwyd lle'r oedd Cyn-reolwr Tîm y Cod yn "berchennog achos"

58. Roedd yr adolygiad yn edrych ar un ar ddeg o achosion a gafodd eu hymchwilio gan Gyn-reolwr Tîm y Cod, ac a derfynwyd gan y DOI/CLA yn dilyn hynny, heb gael eu cyfeirio at bwyllgor safonau neu'r Panel Dyfarnu Cymru i sicrhau nad oedd unrhyw dystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ddelio â'r achosion hyn.

59. Roedd yr holl achosion a adolygwyd yn erbyn cynghorwyr o naill ai Awdurdodau Lleol neu Gynghorau Cymuned.

60. Cafodd yr holl benderfyniadau i ddod â'r rhaglen i ben a wnaed gan Gyn-reolwr Tîm y Cod eu cymeradwyo gan y DOI/CLA a'r Ombwdsmon, yn unol â'r llawlyfr proses.

61. Cynhaliwyd yr adolygiad o'r achosion hyn gan ddefnyddio proses debyg i'r 673 o achosion a adolygwyd uchod, gan gynnwys ystyried y dystiolaeth yn ofalus, cymhwyso'r prawf dau gam, ac asesu'r rhesymau dros ddod â'r prawf i ben.

## Casgliad

62. **Canfu'r adolygiad o benderfyniadau i derfynu achosion fod yr holl benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau a rhesymu cadarn, wedi ei seilio'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Nid oedd tystiolaeth fod y penderfyniadau mewn perthynas â diddymu'r achosion hyn wedi eu dylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.**

# Cyfweliadau â staff ynghylch mynegi barn bersonol ar faterion gwleidyddol

63. Mae'r rhan hon o'r adolygiad yn ymwneud â chylch gorchwyl 4, ac yn archwilio a oes tystiolaeth bod arweinydd y tîm wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol 'tebyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol' yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff. Mae'r themâu sy'n deillio o gyfweliadau gyda Thîm y Cod, y DOI a Chyn-reolwr Tîm y Cod yn darparu cyd-destun pellach, ac yn cynnwys themâu ychwanegol sydd wedi bwydo i mewn i'r adran 'gwersi a ddysgwyd' yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Tîm y Cod

64. Sioc oedd y teimlad a fynegwyd gan holl staff Tîm y Cod a gyfwelwyd mewn perthynas â'r tro cyntaf iddynt glywed am y digwyddiad. Dywedodd pob aelod o Dîm y Cod eu bod yn "syfrdan" neu'n " synnu", gydag ambell un yn dweud eu bod yn "gwbl ddigalon" pan glywson nhw am y digwyddiad yn ymwneud â'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol gan Gyn-reolwr Tîm y Cod. Roedd o leiaf pedwar o Dîm y Cod yn ffrindiau gyda Chyn-reolwr Tîm y Cod ar Facebook; nid oedd yr un ohonynt yn cofio gweld y postiadau dan sylw. Nid oedd llawer yn weithredol ar Twitter.

65. Roedd y cyfweliadau â'r staff yn cadarnhau nad oedd trafodaethau am wleidyddiaeth yn digwydd rhwng cydweithwyr, yn y swyddfa nac o bell.  Dywedodd pob aelod o Dîm y Cod nad oeddent yn cymdeithasu gyda Chyn-reolwr Tîm y Cod y tu allan i'r gwaith ac nad oeddent erioed wedi cael trafodaeth gyda Chyn-reolwr Tîm y Cod am wleidyddiaeth, nad oedd hi erioed wedi rhannu unrhyw farn wleidyddol bersonol â chydweithwyr ac nad oedd barn wleidyddol y Cyn-reolwr nac unrhyw un yn y swyddfa erioed wedi dylanwadu arnynt mewn unrhyw ffordd.

*"Rydyn ni'n edrych yn fanwl iawn ar yr achos a gweld beth yw'r dystiolaeth ac edrych ar ein prawf dau gam a phenderfynu a yw'n cyd-fynd â hynny ai peidio....Fy mhrofiad i yw na fyddai neb yn meddwl ei bod yn briodol beth bynnag i gael y mathau hynny o sgyrsiau." CT4*

*"Dydw i ddim wedi gweld unrhyw beth a fyddai'n peri i mi boeni am ei gwaith neu ei hymarweddiad yn y swyddfa, neu fel y dywedwch, dydw i ddim wedi gweld unrhyw beth ynghylch safbwyntiau gwleidyddol yn y swyddfa. O'm safbwynt i, roedd hi bob amser yn broffesiynol iawn, ac roedd hi'n cymryd y rôl o ddifri yn y swyddfa." CT5*

*"Gallaf ddweud yn onest nad wyf yn gwybod pa ffordd mae fy nghydweithwyr yn pleidleisio. Nid ydym yn siarad am wleidyddiaeth. Dydw i ddim yn gwybod beth yw eu barn a dyna sut dylai pethau fod. " CT7*

*"Rwy'n cofio bod ei phroffesiynoldeb wedi gwneud cryn argraff arna i, ac ni soniodd unwaith am ei barn na'i safbwyntiau gwleidyddol o gwbl. Mewn gwirionedd, nid oes yr un ohonom yn y tîm wedi trafod hynny ychwaith." CT10*

*"O ran gwaith, roedd hi bob amser yn canolbwyntio ar y dystiolaeth a'r prawf dau gam ac a oedd tystiolaeth uniongyrchol, ac yna a oedd hynny er budd y cyhoedd. Nid oedd pleidiau gwleidyddol yr aelodau y*

*cwynwyd amdanynt, na'r achwynwyr, erioed wedi ymddangos mewn unrhyw ran o'r broses o wneud penderfyniadau nac hyd yn oed yn codi o gwbl oni bai fod yr achwynydd wedi gwneud hynny'n benodol – wedi mynegi mai ffrae wleidyddol ydoedd, fel petai." CT11*

66. Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd parch aelodau Tîm y Cod tuag at y Cyn-reolwr, y gwaith a wnaeth, ei phroffesiynoldeb a'r gefnogaeth a roddodd i'r rhai yr oedd hi'n eu rheoli.

*"Byddem yn aml yn cael sgyrsiau am achosion os oeddwn i'n ei chael yn anodd, ac roedd hi bob amser yn broffesiynol iawn ac yn llawn gwybodaeth, felly roedd hi bob amser yn ddefnyddiol iawn sgwrsio gyda hi am bethau. Wnes i erioed feddwl ei bod hi'n gwneud unrhyw beth ar wahân i asesu hyn o ran y cod ymddygiad a'n prawf dau gam." CT3*

*"Oedd, roedd ganddi gymaint o falchder yn yr hyn roedd hi'n ei wneud. Roedd hi wrth ei bodd â'i swydd. Roedd hi'n rhagorol o ran bod yn rheolwr, ac yn gefnogol ac yn hyrwyddo'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Roedd hi'n amlwg yn ymfalchïo mewn gweithio i'r sefydliad ac yn ei rôl." CT8*

*"Pe bai hi'n teimlo bod rhywbeth yn werth ei drafod, byddai'n croesawu'r drafodaeth honno. Doedd hi ddim yn ceisio gorfodi ei barn arnoch chi. Roedd hi eisiau deall eich barn, ac i ni ddod i'r penderfyniad iawn ar sail hynny, felly rwy'n meddwl bod hynny'n bwynt pwysig sy'n werth ei wneud." CT9*

*"Roedd hi'n frwd iawn dros wneud pethau yn y ffordd iawn, ac felly byddwn i'n synnu'n fawr pe bai unrhyw dystiolaeth yn dod i'r amlwg o ragfarn wleidyddol... byddai wedi gwneud unrhyw beth i wneud yn siŵr na allai unrhyw beth o fewn y gwaith effeithio ar uniondeb y broses, na'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud." CT9*

67. Soniodd nifer o aelodau Tîm y Cod am yr effaith ar yr Ombwdsmon a'i staff. Fe wnaethant sôn am yr effaith negyddol mae'r digwyddiad hwn wedi ei chael arnynt, eu gwaith ac ar enw da'r Ombwdsmon. Er nad yw'r thema hon yn ymwneud â mynegiad y Cyn-reolwr o unrhyw farn bersonol neu wleidyddol [ToR 4], mae wedi ei chynnwys yma fel thema bwysig i roi cyd-destun yr effaith y mae'r digwyddiad wedi ei chael, sydd wedi cyfrannu at adran y gwersi a ddysgwyd yn yr adroddiad.

*"Rydyn ni'n dîm bach, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n gilydd, rydyn ni wir yn credu yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ac rydw i'n meddwl bod y sylwadau sydd wedi cael eu gwneud amdanom ni fel tîm a sefydliad wedi bod yn annheg... ac rydw i'n meddwl bod hynny wedi cael effaith fawr ar bawb. Mae craffu'n iawn pan mae'n waith craffu teg, ond mae'n teimlo bod rhai o'r sylwadau wedi bod yn annheg iawn." CT6*

*"Nid yw'n braf iawn clywed hynny - pobl yn gweld bai ar eich gwaith, pan rydych chi'n gwybod bod cryn dipyn o ofal yn mynd i mewn i'r hyn rydyn ni'n ei wneud." CT10*

*"Mae'n drueni, oherwydd does gen i ddim amheuaeth bod y gwaith mae pawb yn ei wneud yn gwbl ddiduedd ac o safon dda iawn, felly rwy'n meddwl ei bod yn anffodus ei fod yn cael ei gwestiynu oherwydd gweithredoedd un unigolyn." CT5*

*"Mae'n rôl arbenigol, ac mae gennym staff arbenigol sydd wedi gwneud eu gwaith yn dda ers blynyddoedd lawer, ac rydym yn gwybod sut i wneud y gwaith. Gan hynny, ni fyddai'n briodol i neb arall wneud hynny. Felly rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein*

*bod ni'n cadw'r gwaith hwnnw, ac ein bod ni'n parhau i wneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ac ein bod ni'n parhau i gynnal safonau, sef yr hyn rydyn ni'n ei wneud." CT5*

68. Gofynnwyd am farn y staff am y broses Cod Ymddygiad er mwyn helpu i lywio'r adolygiad o brosesau a dirprwyaethau a drafodwyd uchod yn yr adroddiad hwn. Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod pob aelod o Dîm y Cod yn falch iawn o weithio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ymfalchïo yn eu gwaith, ac yn teimlo bod y prosesau'n gadarn, gyda llawer yn sôn am y mesurau cadw cydbwysedd sydd ar waith.

*"Rwy'n meddwl fod pethau'n drylwyr iawn – llawer o fesurau cadw cydbwysedd. Mae'n gynnyrch o safon go iawn ar ddiwedd y broses." CT10*

*"Rwy'n credu bod ein prosesau... mae'n broses eithaf trylwyr. Mae llawer o gadw cydbwysedd ac rwy'n meddwl bod hynny'n wir fel nad yw penderfyniadau amhriodol yn cael eu gwneud a'n bod ni'n ystyried pethau'n briodol - nad ydym yn rhagfarnllyd yn ein penderfyniadau, ein bod ni'n trin achosion yn deg, ein bod ni'n bwriadu gwneud penderfyniadau cyson – y math yna o beth. Mae'n golygu bod y broses yn un hir ac mae ein hymchwiliadau'n cymryd llawer iawn o amser. Mae rheswm pam mae'r gwiriadau hynny ar waith. Credaf y byddai'n beryglus i ni dorri'r corneli hynny i gael ymchwiliad byrrach, ac o bosib gadael ein hunain yn agored i risgiau eraill." CT7*

*"Rydw i'n meddwl bod yn rhaid i chi wneud hynny, oherwydd os ydych chi'n gwneud rhywbeth sy'n ymddangos fel nad oes llawer o waith meddwl yn ei gylch, fel yn achos adolygiad er enghraifft, mae'n rhaid i chi allu cyfiawnhau pam rydych chi wedi dod i'r penderfyniad hwnnw neu'r hyn rydych chi wedi seilio'r penderfyniad hwnnw arno er mwyn i'r unigolyn sydd angen ei adolygu allu ei ystyried yn iawn, os ydych chi'n gwybod beth sydd gen i dan sylw. Rydych chi bob amser yn cadw hynny mewn cof - wel, rydw i'n gwneud hynny, beth bynnag - pan fyddwch chi'n rhoi eich PAAF a'ch hysbysiad penderfyniad at ei gilydd, oherwydd mae angen i chi allu cyfiawnhau pam eich bod chi'n meddwl beth rydych chi'n ei feddwl." CT8*

*"Mae hi fel eu bod nhw'n dewis pobl ar gyfer y sefydliad sydd â'r agwedd a'r meddylfryd iawn tuag at y gwaith, ac mae'n amlwg bod y tîm wir yn gydwybodol, yn drylwyr iawn, yn malio o ddifri am y gwaith. " CT10*

## DOI/CLA

69. Cafodd y DOI/CLA ei chyfweld fel rhan o'r adolygiad. Bu'r DOI/CLA yn gweithio gyda Chyn-reolwr Tîm y Cod am bymtheg mlynedd yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac, fel gweddill y staff a gyfwelwyd, mynegodd ei anghrediniaeth a'i sioc ynghylch y digwyddiad. Mynegodd ei barn hefyd fod y Cyn-reolwr yn aelod proffesiynol a gwerthfawr o'r sefydliad.

*"Hyd y gwn i, ac yn fy mhrofiad gyda hi, mae hi bob amser yn broffesiynol, yn wrthrychol wrth wneud yr hyn a wnawn ni yma, a dyna oedd fy mhrofiad ohoni. Fel y dywedais, gweithiais yn agos iawn gyda hi dros y cyfnod hir hwnnw, a byddwn hefyd yn ychwanegu, yn ogystal, ei bod hi bob amser yn cael ei hystyried yn ymchwilydd effeithiol, ac yn rheolwr da iawn o'n gwaith. Roedd hi'n un o'n rheolwyr hynod werthfawr a blaengar, a dweud y gwir."*

*"Rydyn ni'n siarad am achosion, ac fel y byddwch chi wedi gweld o'r ffordd rydyn ni'n gosod y cyd-destun, os ydyn ni'n*

*meddwl bod teyrngarwch gwleidyddol rhywun yn berthnasol i achos, mae'n bosib y bydd cyfeiriad ato, ond doeddwn i ddim wir yn gwybod beth oedd ei safbwyntiau gwleidyddol personol ei hun. Rydw i'n meddwl ei bod hi'r math hynny o swyddfa, oherwydd rydyn ni'n glir iawn am faterion anfri, oherwydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ac rydyn ni i gyd yn cadw ein safbwyntiau personol i'r naill ochr, ac rydyn ni'n gwybod bod yn rhaid i ni ddefnyddio hynny'n wrthrychol... Nid dyna'r math o sgyrsiau rydyn ni'n eu cael yn y swyddfa, neu rydw i'n eu cael gyda staff, beth bynnag."*

## FCTM

70. Cyfwelwyd â Chyn-reolwr Tîm y Cod ar ôl cwblhau'r adolygiad achos. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd o fewn cwmpas yr adolygiad hwn i ymchwilio i'r digwyddiad na Chyn-reolwr Tîm y Cod mewn perthynas â'r negeseuon a rannodd. Fodd bynnag, teimlai'r adolygiad y byddai'n gwbl briodol gwahodd Cyn-reolwr Tîm y Cod i siarad â'r Adolygydd Arweiniol i ddarparu unrhyw wybodaeth yr oedd hi'n teimlo ei bod yn berthnasol i'r adolygiad, pe bai'n dymuno gwneud hynny; rydym yn ddiolchgar ei bod wedi ymgysylltu â'r adolygiad. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn.

- Dywedodd y Cyn-reolwr mai dyma'r tro cyntaf iddi siarad yn ffurfiol ag unrhyw un am fanylion y digwyddiad.

- Dywedodd y Cyn-reolwr nad yw'n wleidyddol iawn ac nad yw'n gwyro tuag at unrhyw blaid wleidyddol; yn hytrach, mae ganddi farn bersonol gref am faterion polisi a'r effaith mae polisïau'n ei chael ar bobl.

- Dysgodd yr adolygiad fod yr Cyn-reolwr wedi rhoi hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ar waith ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac wedi cyflwyno'r modiwl sefydlu ar gyfer gwneud penderfyniadau i staff a oedd yn cynnwys pynciau tuedd cadarnhau, rhagfarn ymwybodol ac anymwybodol, a rhagfarn bersonol, a chafodd pob un o'r rhain eu cymeradwyo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dywedodd hefyd ei bod wedi trafod y pynciau hyn gyda'i thîm yn rheolaidd, gan gynnwys pwysigrwydd defnyddio'r cod ac nid rhagfarnau personol am yr aelodau na'u pleidiau gwleidyddol. Dywedodd hefyd ei bod yn cydnabod pwysigrwydd ewyllys yr etholwyr, beth bynnag fo'i barn ei hun, a byddai'n aml yn atgoffa ei thîm o hyn.

- Dywedodd y Rheolwr Materion Ariannol ei bod wedi datgan buddiannau, fel sy'n ofynnol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n ymwneud â'i pherthynas bersonol â ffrindiau sydd â chysylltiadau gwleidyddol. Dywedodd, os derbyniwyd unrhyw gŵyn a oedd yn ymwneud â'r bobl hynny, ei bod wedi datgan buddiant ac nad oedd wedi delio'n fanwl â'r gwaith achos hwnnw.

- Dywedodd y Cyn-reolwr ei bod "wedi torri ei chalon" y gallai unrhyw beth y gallai hi fod wedi ei wneud fod wedi niweidio enw da'r swyddfa. Dywedodd ei bod hi wedi gweithio'n galed iawn i'r sefydliad am bymtheg mlynedd a'i bod yn dda am wneud ei gwaith. Dywedodd nad oedd penderfyniad yr Ombwdsmon i gomisiynu adolygiad annibynnol yn peri pryder iddi, gan ddweud "Gall unrhyw un edrych ar unrhyw agwedd ar fy ngwaith. Rwy'n dogfennu popeth. Fe wnes i greu'r PAAF, y ffurflen i gadw'r cyfan yn rhesymegol er mwyn i unrhyw un allu ei weld - gall unrhyw un gael mynediad ato. Roeddwn i'n cadw fy nodiadau i gyd, popeth mewn man lle mae modd cael gafael ar y cyfan. Mae goruchwyliaeth glir o'r brig i'r gwaelod. Cyflwynais yr ystyriaethau Erthygl 10 ymlaen llaw i sicrhau ein bod yn ystyried hynny i gyd

ar y cychwyn…Cawsom drafodaethau bob yn ail wythnos fel tîm, a chawsom gyfarfodydd achos misol lle'r aethom drwy bob un achos gydag uwch reolwyr yn yr ystafell."

## Casgliad

71. **Canfu'r adolygiad nad oedd tystiolaeth bod cyn-reolwr tîm y cod wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol 'sy'n debyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol' yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.**

# Argymhellion

72. Byddai'r gwelliannau canlynol a argymhellir, sy'n ymwneud â'r broses bresennol, yn ategu'r mesurau diogelu presennol ar gyfer sicrhau tegwch a didueddrwydd y prosesau a byddai'n egluro'r canllawiau cysylltiedig fel bo'n berthnasol:

    (1) **Dogfennu ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd**: er mwyn lliniaru'r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio ac i fod yn sail i degwch y broses asesu cwynion, argymhellir bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael ei gofnodi ar y PAFF. Bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn briodol, gyda chyfarwyddiadau wedi eu diweddaru ar gyfer y Tîm Derbyn.

    (2) **Nid yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad**: er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, argymhellir bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Byddai hyn hefyd yn amddiffyn yr Ombwdsmon rhag beirniadaeth yn y cyswllt hwnnw, a allai godi o amgylchiadau lle nad yw'r Aelod a Gyhuddwyd yn ymwybodol o'r gŵyn ac yn cael clywed amdani drwy drydydd parti neu'r cyfryngau. Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu dychwelyd i'r arfer blaenorol, bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn unol â hynny.

    (3) **Penderfyniad Swyddog Ymchwilio i beidio ag ymchwilio**: er gwaethaf y darpariaethau perthnasol yn y llawlyfr proses[29] ac yn y Broses Adolygu Penderfyniadau, argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ansawdd y penderfyniadau Swyddog Ymchwilio yn y cyswllt hwn, yn enwedig o ran y prawf budd y cyhoedd, ac fel mesur diogelu pellach yn erbyn y potensial o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio. Ategir yr argymhelliad hwn gan ganfyddiadau o'r cyfweliadau â staff. O ystyried nifer y cwynion, fodd bynnag, mae angen i'r mesur arfaethedig fod yn gymesur ac awgrymir y gellid cyflawni hyn drwy samplo penderfyniadau Swyddog Ymchwilio ar hap o bryd i'w gilydd.

    (4) **Awdurdod dirprwyedig Rheolwr Tîm y Cod i wrthod cynigion Swyddog Ymchwilio i ymchwilio a chynigion Swyddog Ymchwilio i ymestyn yr ymchwiliad neu gychwyn ymchwiliad newydd yn erbyn aelod arall**[30]: er gwaethaf y ddarpariaeth berthnasol yn y Broses Adolygu Penderfyniadau, argymhellir bod mecanwaith adolygu/gwirio ychwanegol yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r penderfyniadau dirprwyedig hyn, er mwyn lliniaru'r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran Rheolwr Tîm y Cod wrth benderfynu peidio â chytuno ar gynigion Swyddog Ymchwilio. Awgrymir y gellid cyflawni'r mesur hwn hefyd drwy samplu penderfyniadau Rheolwr Tîm y Cod ar hap. Yn ogystal, dylid diweddaru'r Cynllun

[29] Gweler, er enghraifft, baragraff 5.15 yn y llawlyfr proses.

[30] Gweler paragraffau 6.1 ac 8.1 y llawlyfr proses.

Dirprwyo i gynnwys y pwerau hyn gan Reolwr Tîm y Cod i wneud penderfyniadau.

(5) **Cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau**: mae'r adolygiad yn cydnabod, fel rhan o broses gyfun Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru/y pwyllgor safonau, bod gan yr Aelod a Gyhuddwyd nifer o gyfleoedd i roi sylwadau ar ffeithiau'r achos.[31] Canfu'r adolygiad felly fod y broses yn amlwg yn deg. Wedi dweud hynny, mae'n bosib y bydd yr Ombwdsmon yn dymuno ystyried a oes pwyntiau ychwanegol yn y broses lle byddai mantais o ran rhoi cyfle i'r Aelod a Gyhuddwyd roi sylwadau pellach ar ffeithiau perthnasol, yn enwedig cyn dod i gasgliadau/canfyddiadau drafft ynghylch a yw'r dystiolaeth yn awgrymu torri'r cod.

(6) **Ffactorau ac ystyriaethau er budd y cyhoedd**: mae'r adolygiad yn cydnabod nad yw'r ffactorau a'r ystyriaethau a restrir yn hollgynhwysfawr, ond mae'n argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried datblygu canllawiau mewnol manylach ar asesu prawf budd y cyhoedd. Yn ogystal, dylid adolygu ffactorau ac ystyriaethau budd y cyhoedd yn rheolaidd.

(7) **Newidiadau esboniadol**: gyda'r bwriad o egluro'r canllawiau, mae'r adolygiad hefyd yn argymell:

1. Bod y llawlyfr proses yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r anghysondeb ymddangosiadol mewn terminoleg lle mae "tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi ei dorri" yn ofyniad i gŵyn basio'r cam asesu (paragraffau 5.4 a 5.5) tra gellir cwblhau ymchwiliad ar sail y canfyddiad "nad oes tystiolaeth o dorri'r Cod" (paragraffau 13.1(a));

2. Mae'r llawlyfr proses yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r arfer presennol, pan fydd y Swyddog Adolygu Lleol yn cadarnhau cais am adolygiad o gŵyn, y bydd yr ailasesu/ailystyried yn cael ei gynnal gan Swyddog Ymchwilio gwahanol i'r Swyddog Ymchwilio a gynhaliodd yr asesiad/ymchwiliad gwreiddiol; a

3. Bod y Cynllun Dirprwyo yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni ail-deitlo swydd y Swyddog Adolygu Lleol i egluro bod y Swyddog Cofnodion Lleol wedi dirprwyo awdurdod mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch a ddylid cadarnhau cais am adolygiad y dylid ailasesu/ailystyried y gŵyn.

[31] Gweler, er enghraifft, baragraffau 12.4, 13.8 a 13.10 yn y llawlyfr proses.

# Gwersi a ddysgwyd

73. Dylai canfyddiadau'r adolygiad hwn gynnig sicrwydd i'r cyhoedd ac i aelodau etholedig bod prosesau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon yn gadarn, yn cael eu cymhwyso'n gyson, yn deg ac yn addas i'r diben. Gan na chanfu'r adolygiad unrhyw dystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth wneud penderfyniadau nac unrhyw bryder o ran prosesau perthnasol, mae'r prif wersi a ddysgwyd yn ymwneud â mesurau a allai leihau'r risg o'r math hwn o beth yn digwydd eto. Mae'r adolygiad yn argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried y pwyntiau a ganlyn:

**(1)** A allai Cod Ymddygiad, polisïau ac arferion Staff yr Ombwdsmon sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol fod yn fwy cynhwysfawr mewn perthynas â nodi'r amgylchiadau lle mae gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol gan weithiwr yn gyfystyr â chamymddwyn, yn eu gwaith ac yn eu bywydau preifat, gan ystyried y gyfraith achosion gyfredol mewn perthynas â rhyddid mynegiant (Erthygl 10) ac achosion cynsail perthnasol eraill.

**(2)** A oes angen cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei darparu fel rhan o unrhyw broses recriwtio gan yr Ombwdsmon i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybod am unrhyw gwtogi angenrheidiol ar hawl gweithwyr yr Ombwdsmon i ryddid mynegiant, gan gynnwys gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

**(3)** A ddylai asesiadau o ragfarn/rhagfarn ddiarwybod fod yn rhan orfodol o'r broses recriwtio.

**(4)** A ddylai hyfforddiant gloywi gorfodol ar ragfarn ddiarwybod ac ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gael ei roi ar waith yn flynyddol.

**(5)** Os bydd amgylchiadau eithriadol tebyg yn codi, a oes angen i'r Ombwdsmon gael polisïau neu brosesau eraill i gefnogi ei staff.

**(6)** P'un ai, oherwydd yr heriau penodol sy'n codi o ymchwilio i ymddygiad aelodau etholedig, a oes hyfforddiant priodol ar gael ar gyfer staff perthnasol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chydnerthedd wrth reoli'r pwysau a'r gwendidau sy'n dod gyda'r rôl hon.

# Casgliad yr adroddiad

74. Fel y nodwyd yn Egwyddorion Fenis[32], "Mae gan Sefydliadau Ombwdsmon rôl bwysig i'w chwarae o ran cryfhau democratiaeth, rheol y gyfraith, gweinyddu da a diogelu a hyrwyddo hawliau dynol a rhyddid sylfaenol". Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar egwyddorion annibyniaeth, didueddrwydd, tegwch a chynhwysiant. Rhaid adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn y gwaith pwysig a wneir gan yr Ombwdsmon er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei weithrediadau. Mae hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r asesiadau a wneir gan swyddogion ymchwilio sy'n gweithio i'r Ombwdsmon ddangos defnydd cyson o broses deg sydd wedi ei diffinio'n dda yn ogystal â dadansoddiad a rhesymu rhagorol i sicrhau bod eu penderfyniadau'n ddiduedd ac nad ydynt yn dangos rhagfarn. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfeirio at ragoriaeth o'r fath, o ran prosesu ac asesu cwynion. Dylai hyn roi sicrwydd i'r cyhoedd y gallant ymddiried yng ngwaith yr Ombwdsmon a bod â ffydd ynddo a'i Dîm Cod.

[32] https://www.venice.coe.int/webforms/documents/default.aspx?pdffile=CDL-AD(2019)005-e

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

## Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliad yr Ombwdsmon i gwynion Cod Ymddygiad

Fersiwn Terfynol 16.05.24

### Cefndir

Sefydlwyd swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2006, gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) 2005. Yn 2019, cafodd y Ddeddf hon ei diddymu a'i disodli gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Penodir 'Ombwdsmon' gan y Goron ac mae'r Ombwdsmon presennol, Michelle Morris, wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2022.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw: 1) ymchwilio i gwynion bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; 2) ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr Cymru wedi torri eu Cod Ymddygiad; a 3) gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol ledled Cymru.

### Cyd-destun

Ar 26 Mawrth 2024, hysbyswyd yr Ombwdsmon gan aelod o'r cyhoedd fod aelod o staff (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y "cyn arweinydd tîm") wedi bod yn gwneud postiadau o natur wleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn amhriodol ac annerbyniol.

Cafodd y Cyn Arweinydd Tîm ei hatal dros dro ar 29 Mawrth 2024 ac ymddiswyddodd o'i rôl gyda'r Ombwdsmon ar 3 Ebrill 2024. Hyd at ddiwedd mis Awst 2023, roedd y Cyn Arweinydd Tîm wedi bod yn arwain Tîm y Cod gan asesu ac ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000 ('Deddf 2000').

### Cwmpas a Phwrpas yr Adolygiad

Pwrpas yr adolygiad annibynnol yw edrych ar brosesau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer asesu ac ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru wedi torri eu Cod Ymddygiad. Nod yr adolygiad hwn yw rhoi sicrwydd ynghylch a yw prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau cod ymddygiad yr Ombwdsmon ynghylch asesu ac ymchwilio i gwynion o'r fath wedi bod yn gadarn, heb unrhyw ragfarn wleidyddol a bod gwersi'n cael eu dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd.

Canfyddir *rhagfarn wleidyddol* lle ceir tystiolaeth bod y penderfyniad ar achos wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.

Er nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd bod y Cyn Arweinydd Tîm wedi mynegi ei barn bersonol nac wedi dylanwadu ar eraill yn y swyddfa, mae'r Ombwdsmon yn cydnabod bod angen i unrhyw adolygiad hefyd roi sicrwydd ynghylch penderfyniadau'r Cyn Arweinydd Tîm a'r

dylanwad posib ar eraill. Nid oes bwriad i'r adolygiad hwn ailasesu achosion o'r newydd nac ailagor achosion.

## Cwynion Cod Ymddygiad nad ydynt yn cael eu hymchwilio

O 1 Ebrill 2021 ymlaen, Tîm y Cod oedd yn gyfrifol am asesu cwynion Cod Ymddygiad a gwneud penderfyniadau ynghylch pa gwynion na ddylid ymchwilio iddynt. Cyn hyn, gwnaed yr asesiadau hyn mewn tîm gwahanol, nad oedd yn cael ei reoli gan y Cyn Arweinydd Tîm.

Ar 1 Medi 2023, fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn unol ag anghenion gweithredol y swyddfa, aeth yr Ombwdsmon ati i gylchdroi arweinwyr tîm a symudodd y Cyn Arweinydd Tîm i reoli tîm gwahanol yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar yr achlysur hwn, digwyddodd y cylchdroi o ganlyniad i ymddeoliad arweinydd tîm a oedd yn rheoli Tîm Ymchwilio i Gwynion Gwasanaethau Cyhoeddus.

O 1 Medi 2023 tan 22 Hydref 2023, nid oedd gan Dîm y Cod arweinydd tîm, nes i'r arweinydd tîm newydd ddechrau yn y rôl hon ar 23 Hydref. Yn ystod y cyfnod pan nad oedd arweinydd tîm mewn swydd, roedd uwch-reolwr yn goruchwylio gwaith Tîm y Cod Ymddygiad. O bryd i'w gilydd, cafodd gymorth gan y Cyn Arweinydd Tîm.

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried penderfyniadau asesu a wnaed gan y Cyn Arweinydd Tîm a Thîm y Cod rhwng 1 Ebrill 2021 a 22 Hydref 2023.

Mae'r Ombwdsmon yn defnyddio prawf dau gam wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn. Yn gyntaf, a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri, ac yn ail, a oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd.

Gan nad oedd y Cyn Arweinydd Tîm yn rheoli'r Tîm a wnaeth benderfyniadau asesu ar achosion Cod Ymddygiad cyn 1 Ebrill 2021, ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried penderfyniadau asesu a wnaed cyn 1 Ebrill 2021.

## Cwynion Cod Ymddygiad — achosion yr ymchwilir iddynt

Gwneir penderfyniadau i gychwyn ymchwiliad dan adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorydd Cyfreithiol.

Gwneir penderfyniadau i roi'r gorau i ymchwiliad cyn iddo gael ei gwblhau gan y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorydd Cyfreithiol.

Ar ôl cwblhau ymchwiliad, rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw penderfynu pa un o'r canfyddiadau a ganlyn o dan a69(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n briodol:

(a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad;

(b) nad oes angen cymryd camau ynglŷn â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt;

(c) y dylid cyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at swyddog monitro'r awdurdod perthnasol o dan sylw i'w hystyried gan ei bwyllgor safonau, neu;

(d) y dylid cyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at lywydd Panel Dyfarnu Cymru i'w dyfarnu gan dribiwnlys.

Mae penderfyniadau nad oes tystiolaeth o dorri'r Cod (fel yr amlinellir yn (a) uchod) neu nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt (fel yr amlinellir yn (b) uchod) yn cael eu cymryd gan y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau/Prif Gynghorydd Cyfreithiol.

Bydd achosion y bu'r Cyn Arweinydd Tîm yn ymchwilio iddynt yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2019 ymlaen (pan ddaeth y Cyn Arweinydd Tîm yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Cod Ymddygiad) tan 23 Hydref 2023 ac y penderfynodd y Cyn Arweinydd Tîm naill ai roi'r gorau iddynt neu eu cau oherwydd nad oedd tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r cod neu nad oedd angen cymryd camau, yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Er na wnaeth y Cyn Arweinydd Tîm y penderfyniad terfynol ar yr achosion hyn, bydd yr holl achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan y Cyn Arweinydd Tîm tra'n goruchwylio gwaith achos y Cod Ymddygiad ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

Gwneir penderfyniadau i gyfeirio mater i'w glywed at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru o dan (c) neu (d) uchod, gan yr Ombwdsmon.

Mae'r achosion hyn wedyn yn destun gwrandawiad annibynnol, lle gellir herio a chraffu ar yr ymchwiliad a gellir galw tystion gerbron y pwyllgor safonau perthnasol, neu bydd Panel Dyfarnu Cymru yn penderfynu a yw'r cynghorydd y cwynir amdano wedi torri'r Cod Ymddygiad, ac os felly, a ddylid gosod sancsiwn.

Caiff cynghorydd apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan bwyllgor safonau i Banel Dyfarnu Cymru.

Gall cynghorydd apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Banel Dyfarnu Cymru i'r Uchel Lys.

Mae Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau yn annibynnol ar yr Ombwdsmon ac yn gwneud penderfyniadau ar achosion yn annibynnol ar yr Ombwdsmon. Mae achosion a gyfeiriwyd at naill ai bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru eisoes wedi cael eu hadolygu gan y cyrff hynny. Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau'r cyrff hynny: hynny yw, mae mecanwaith statudol ar waith sy'n caniatáu i gynghorydd sy'n destun penderfyniad gan y cyrff hynny geisio adolygiad pellach o'r penderfyniadau hynny. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i newid penderfyniad pwyllgor safonau na Phanel Dyfarnu Cymru. Yr unig ffordd y gellir herio neu newid penderfyniadau o'r fath yw drwy'r broses apelio statudol. Gan hynny, ni fydd yr adolygiad yn cynnwys yr achosion hyn.

## Adolygwr Arweiniol

**Dr. Melissa McCullough**

Melissa McCullough yw Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon (ers 2020) a hi hefyd yw Comisiynydd Safonau Cynulliadau Jersey a Guernsey (ers mis Mawrth 2023). Symudodd Melissa i Belfast o'r Unol Daleithiau ym 1994 a chafodd PhD o Brifysgol y Frenhines, Belfast, yn y Gyfadran Meddygaeth ym 1997. Mae hi wedi gweithio fel academydd yn y gyfraith, moeseg a phroffesiynoldeb yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ers 2005. Mae gan Melissa hefyd y Dystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Ymarfer Ymchwiliol, gradd Meistr mewn Bioetheg a Moeseg Gymhwysol a gradd Baglor yn y Gyfraith. Gwasanaethodd Melissa fel cyfarwyddwr anweithredol gweinidogol ar y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon rhwng 2009 a 2020, ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Bwyllgor Moeseg y BMJ.

## Y Tîm Adolygu

**Mr. John Devitt**

Mae John Devitt yn Uwch Arbenigwr Goruchwylio Plismona ac yn Ymchwilydd Proffesiynol Annibynnol. Mae John yn gyn Dditectif Scotland Yard ac yn Uwch-ymchwilydd ar gyfer Swyddfa Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon. Mae gan John wybodaeth a phrofiad helaeth o ymchwilio i droseddau mawr. Yn ystod ei yrfa hir, mae wedi ymgymryd â rhai o'r ymchwiliadau mwyaf heriol, cymhleth a sensitif yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae John yn Aelod o Banel Cynghori'r elusen Inside Justice sy'n adolygu ac yn ymchwilio i achosion honedig o gamweinyddu cyfiawnder. Mae John hefyd yn cefnogi Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon gyda'i gwaith achos cyfredol ar safonau a moeseg. Mae wedi bod yn aelod o Sefydliad yr Ymchwilwyr Proffesiynol ers 1992.

**Mr. Shane McAteer**

Shane McAteer yw'r Clerc Safonau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac mae wedi gweithio fel uwch swyddog cyhoeddus ers dros 20 mlynedd, gyda phrofiad o gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a chraffu ar bolisi a deddfwriaeth gyhoeddus ac o ddarparu cyngor gweithdrefnol, dadansoddi polisi a chefnogaeth broffesiynol i gynrychiolwyr etholedig. Mae gan Shane brofiad penodol o gynghori cynrychiolwyr etholedig ar ofynion y Cod Ymddygiad ac o gynorthwyo'r gwaith o ddyfarnu ar gwynion yn erbyn cynrychiolwyr etholedig. Mae ganddo arbenigedd mewn ymchwilio i ymddygiad/gweithleoedd ac mae ganddo Dystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Ymarfer Ymchwiliol. Yn ogystal, mae gan Shane brofiad blaenorol fel Prif Swyddog Gweithredol yn y Trydydd Sector.

## Casglu Tystiolaeth

Bydd y Tîm Adolygu yn cael mynediad at y gronfa ddata rheoli achosion. Ar wahân i'r hyn sydd ar gael ar y gronfa ddata rheoli achosion, bydd y Tîm Adolygu hefyd yn casglu unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig, dogfennau a gohebiaeth sy'n berthnasol ac yn ymwneud â chwmpas a phwrpas yr adolygiad gan gynnwys gwybodaeth ar ffurf negeseuon ebost, galwadau ffôn, digidol a chopi caled. Mae'n bosib y bydd y tîm Adolygu o'r farn bod angen cyfweld ag aelodau'r tîm a staff a thrydydd partïon perthnasol eraill a allai ddod i'r amlwg drwy gydol yr adolygiad.

## Elfennau i'w cyflawni

Mae'r Ombwdsmon wedi penodi Melissa McCullough i arwain yr adolygiad annibynnol hwn ac i adrodd ar eu canfyddiadau.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r farn y dylai Dr. McCullough fod â chwmpas eang ar gyfer sylwadau ac y dylai geisio:

1. Adolygu prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sicrhau eu bod yn briodol, yn deg ac yn ddiduedd ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

2. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed gan y cyn arweinydd tîm a'i thîm i beidio ag ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad rhwng 1 Ebrill 2021 a 22 Hydref 2023, er mwyn sicrhau bod prawf dau gam yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso'n briodol a bod penderfyniadau'n rhydd rhag rhagfarn wleidyddol (673 o achosion).

3. Adolygu achosion lle yr oedd y cyn arweinydd tîm yn 'berchennog achos' a gafodd eu hymchwilio a'u cau heb gael eu cyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 22 Hydref 2023, er mwyn sicrhau nad oes tystiolaeth o ragfarn wleidyddol wrth ddelio â'r achosion hyn (11 o achosion).


4. Nodi a oes tystiolaeth bod arweinydd y tîm wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol sy'n debyg i'w postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

5. Gwneud argymhellion y mae Dr. McCullough o'r farn eu bod yn briodol a chyhoeddi adroddiad terfynol y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei rannu â Phwyllgor Safonau'r Senedd. Os bydd Dr. McCullough o'r farn bod angen ehangu cwmpas yr adolygiad hwn, bydd yn rhoi gwybod i'r Ombwdsmon ac yn cytuno ar hyn.

# Atodiad 2: Nifer yr achosion a adolygwyd gan berchennog yr achos

| Tîm Asesu'r Cod | Nifer yr Achosion a Adolygwyd |
|---|---|
| CT 1 | 11 |
| CT 2 | 15 |
| CT 3 | 91 |
| CT 4 | 6 |
| CT 5 | 30 |
| CT 6 | 116 |
| CT 7 | 68 |
| CT 8 | 95 |
| CT 9 | 49 |
| CT 10 | 19 |
| CT 11 | 84 |
| FCTM | 89 |
| Cyfanswm | **673** |

# Atodiad 3: Canran yr achosion a adolygwyd fesul pwnc



Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon